Cylchgrawn preswylwyr Tai Wales & West AM DDIM

# In Touch

HAF 2018 | RHIFYN 94

## MAE EIN GWEFAN YN NEWID... CANFYDDWCH FWY O WYBODAETH




**ENILLWCH DDYFAIS ECHO DOT GWERTH £50**

**BRON I 200 O GARTREFI NEWYDD I GAERDYDD**

**DWY DUDALEN O BOSAU I GAEL GWOBR**

Tai Wales & West Housing

# Cadwch yn ddiogel
# – gwiriwch eich larwm

## A wyddech y dylech wirio'ch larwm personol unwaith y mis?


Er mwyn sicrhau bod eich system larwm yn gweithio'n iawn, rydym yn cynghori preswylwyr i roi prawf arno bob mis.  Dim ond ichi dynnu llinyn y larwm yn eich cartref neu bwyso'r botwm ar eich tlws crog a dweud wrthym mai galwad brawf ydy hi.

Mae arnom eisiau sicrhau eich bod yn ddiogel.  Os nad ydych wedi tanio'ch larwm ar ôl misoedd lawer, fe wnawn gysylltu â chi i wirio bod eich larwm yn gweithio.

A pheidiwch â phryderu am ei danio fo'n ddamweiniol.  Rydym yn derbyn mwy na 1,000 o alwadau damweiniol bob mis ac fe fyddai'n amgenach gennym wybod eich bod yn ddiogel. Cofiwch, hefyd, os gwelwch yn dda, ein diweddaru ni ynglŷn ag unrhyw newidiadau i rifau ffôn eich cysylltiadau argyfwng neu newidiadau sylweddol yn eich iechyd a'ch lles, er mwyn sicrhau y gallwn gael y cymorth cywir ichi petai arnoch ei angen.

Os ydych yn breswylydd i WWH ac os credwch y gallech elwa o gael larwm argyfwng yn eich cartref, cysylltwch â ni ar 0800 052 2525, os gwelwch yn dda, i drafod gosod larwm a'r costau sy'n gysylltiedig.

Gallant hefyd eich helpu ag unrhyw gwestiynau eraill a all fod gennych ynglŷn â'ch larwm.



## Cysylltwch â ni

Tai Wales & West, Tŷ'r Bwa, 77 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU
Ffôn: **0800 052 2526** Testun: **07788 310420** E-bost: **contactus@wwha.co.uk**
Gwefan: **www.wwha.co.uk**

Gallwch hefyd gysylltu ag aelodau o staff yn uniongyrchol drwy e-bost. Er enghraifft, **joe.bloggs@wwha.co.uk**

## Dilynwch ni ar twitter @wwha

Wyddech chi eich bod chi'n gallu cael rhagor o newyddion a ddiweddariadau ar-lein yn awr?

## Ieithoedd a fformatau eraill

Os hoffech gael copi o'r rhifyn hwn o In Touch yn Saesneg neu mewn iaith neu fformat arall - er enghraifft, print mawr, rhowch wybod i ni ac few wnawn ni helpu.

# CYNNWYS











4 Ein gwefan newydd
5 Enillwch Echo Dot
6 Mae technoleg yn newid y ffordd rydym yn cynnal ein tiroedd
8 Ei adeiladu o - datblygiad mawr yng Nghaerdydd; Sir y Fflint; ac Aberystwyth.
12 Cartrefi newydd
15 Iechyd a Diogelwch
18 Cadw'n ddiogel gyda dŵr
20 Crynodeb o Wobrau MAD 2018
22 Sut i gadw'n ddiogel wrth fancio ar-lein
24 Gangiau cyffuriau'n ceisio manteisio ar ein cymunedau
26 Sut i drwsio nam ar foeler
28 Eich hanesion chi – Mae Trev yn atgyfodi ar y meic tegan
30 Newyddion – Perchnogaeth cŵn gyfrifol
31 Eich hanesion chi
32 Addasiadau
34 Garddio gyda Glenys
35 Coginio a chrefftau'r haf
36 Posau i gael gwobr
38 Diwrnod ym mywyd Swyddog Cydymffurfio
39 Beth sy'n digwydd yn yr haf


*Llun y clawr: Gwefan newydd WWH*



# CROESO GAN ANNE

Annwyl Breswylwyr

Croeso i rifyn yr haf o In Touch.

Technoleg a thrawsnewid digidol yw thema'r rhifyn hwn, sy'n cyd-fynd â lansio'n gwefan newydd i Tai Wales & West yr haf hwn.

Bydd ein gwefan llwyr ddwyieithog, sy'n gallu defnyddio technoleg symudol yn ei gwneud hi'n haws i lawer ohonoch ganfod y cymorth y mae arnoch ei angen yn gyflym.

P'un a ydych yn defnyddio ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur neu mae'n amgenach gennych siarad ar y ffôn, fe allwch ddarllen mwy am y nodweddion newydd y tu mewn.

Mae technoleg hefyd yn newid sut rydym yn byw ac yn gweithio, ac felly fe edrychwn ar rai o'r systemau olrhain uwch-dechnoleg rydym yn eu treialu yn WWH i gadw'n preswylwyr mwy agored i niwed yn ddiogel. Gallwch hefyd ddysgu am ein "garddwr robot", sydd wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'n staff mewn safleoedd mewn cynlluniau yn Ne Cymru.

Yn yr oes ddigidol hon, mae'n ymddangos bod bron i bawb yn siarad am Alexa, y rhith-gynorthwyydd a all wneud popeth, o ddweud faint o'r gloch wrthych i chwarae'ch hoff gerddoriaeth. Felly, fe rown y cyfle i breswylydd ffodus roi cynnig arni drostynt eu hunain drwy ennill dyfais Echo Dot gan Amazon yn ein cystadleuaeth fendigedig.

Mae'n amser cyffrous ar gyfer gwaith adeiladu yn WWH, hefyd, wrth inni rannu newyddion am rai o'r prosiectau adeiladu cartrefi newydd sylweddol sy'n codi o amgylch Caerdydd, Sir y Fflint a Gorllewin Cymru.

Roedd ein 10fed pen-blwydd yng Ngwobrau Gwneud Gwahaniaeth ym mis Mawrth yn noswaith gofiadwy i bawb sy'n gysylltiedig, ac felly fe edrychwn yn ôl ar yr uchafbwyntiau a'r holl enillwyr a'r rheiny a gyrhaeddodd y rownd derfynol.

Yn ogystal, fe geir yr holl newyddion arferol am grefftau, coginio, garddio ac elusennau a dwy dudalen o bosau â gwobrau.

Felly, mwynhewch eich haf - a darllen dedwydd!

**Anne Hinchey**
Prif Weithredwr

Os oes gennych chi sylwadau am yr In Touch newydd neu sut gallwn ni wella, rhowch wybod i ni. Fe wnawn ni barhau i wrando arnoch chi. E-bostiwch contactus@wwha.co.uk neu siaradwch â'n Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu ar 0800 052 2526.

# Bydd **Cyfathrebu** â ni yn haws drwy'n **gwefan** newydd

Yr haf hwn, fe fyddwn yn lansio'n gwefan newydd i'w gwneud hi'n haws i breswylwyr gyrchu'n gwasanaethau ar-lein wrth iddynt fynd ar eu hynt.

Rydym yn gweddnewid ein presenoldeb digidol gan ei gwneud hi'n haws i breswylwyr gael yr atebion y mae arnynt eu hangen a chysylltu â'r bobl iawn i'w helpu yn y ffordd gyflymaf.

Bydd gan ein gwefan newydd wedd ffres, lân a chroesawgar ac fe fydd yn llwyr ddwyieithog ac yn gallu defnyddio technoleg symudol, sy'n golygu y bydd hi'n haws i chi gysylltu â ni ar eich ffôn clyfar neu'ch tabled. Fe fyddwch yn gallu llenwi ffurflenni cysylltu wedi'u symleiddio i'ch cael chi drwodd i'r bobl iawn i ateb eich ymholiadau.

Fe fyddwch hefyd yn gallu ffonio yn syth o'ch ffôn drwy ond tapio rhif ffôn.

Yr ail-lansiad yw ond megis dechrau'r gwelliant i'n gwasanaethau. Byddwn yn chwilio am eich adborth ar yr un pryd ac fe fyddwn yn glust-agored i wneud newidiadau.

Rydym wedi ychwanegu nodweddion y mae'n hymchwil wedi'i awgrymu y mae ar breswylwyr eu heisiau.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr, Shayne Hembrow: "Mae lansio'n gwefan newydd ond yn megis dechrau'n presenoldeb ar-lein. Byddwn yn ei roi ar brawf bob cam o'r ffordd ac fe fyddwn yn glust-agored i wneud newidiadau.

"Fe hoffem petai cynifer o breswylwyr â phosibl yn rhoi cynnig arni, yn ei defnyddio ac yn rhoi adborth inni am yr hyn y maent yn ei hoffi neu beth arall y dylem ei wneud. Y wefan newydd yw'r cam cyntaf ac mae arnom eisiau i breswylwyr ddweud wrthym am y nodweddion yr hoffent.

"Nid oes dim byd wedi'i benderfynu'n derfynol. Fe wnawn wrando ar ein preswylwyr, ac os oes yna bethau y mae arnynt eu heisiau ohoni nad ydynt yno, fe gawn weld beth y gallwn ei wneud."




*Delwedd er dibenion eglurebu yn unig*

Bydd nodweddion newydd yn cynnwys:

- Creu Debyd Uniongyrchol
- Ymgeisio am gartrefi sydd ar gael i'w rhentu
- Awgrymiadau, cynghorion a fideo ar DIY
- Ymgeisio am swyddi

## Mae David wedi gwirioni ar siopa ar-lein




Nid yw siopa ar-lein erioed wedi bod yn haws i un o'r preswylwyr, David Cooksey, ers iddo ennill Apple iPad newydd yn ein raffl i breswylwyr yng Ngwobrau MAD.

Mae David wedi bod yn ailaddurno'i fflat yn Nhŷ Gwaunfarren, Merthyr Tudful, ac mae o wedi defnyddio'i gyfrifiadur tabled newydd i brynu eitemau i'w gartref.

"Nid y fi yw'r gorau yn y byd ar gyfrifiadur, ond rwy'n ymdopi. Rwy'n dda am Gwglo pethau ac rwy'n hoff o siopa ar-lein.

"Mae'r iPad yn fendigedig, mae'n llawer haws na fy hen liniadur. Rwy'n ei ddefnyddio bob diwrnod ac rwyf wedi prynu




*Delwedd er dibenion eglurebu yn unig*

- Rhoi gwybod am faterion megis angen trwsio rhywbeth neu ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Rhai o'r atebion i'r cwestiynau cyffredin

Ochr yn ochr â'r wefan, rydym hefyd yn gweddnewid ein gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol ac fe fyddwn yn lansio tudalen Facebook i'ch diweddaru'n rheolaidd â newyddion a negeseuon oddi wrthym.

Rydym hefyd yn lansio proffil Instagram i ddangos ichi beth sy'n digwydd yn Tai Wales & West.

---

cynifer o bethau. Ni fyddwn yn dymuno bod hebddo.

"Un o fy hoff wefannau yw Wayfair, lle y byddaf yn prynu llawer o bethau ar gyfer fy fflat ac maent yn cael eu danfon at fy nrws.

"Nid wyf erioed wedi rhoi cynnig ar fancio ar-lein, ond os oes yna rywun yn dangos imi beth i'w wneud, rwy'n fodlon rhoi tro arni."

# Enillwch Echo Dot gwerth £50




Mae'r Echo Dot gan Amazon yn chwyldroi'r ffordd rydym yn gwneud pethau o amgylch ein cartrefi, diolch i Alexa.

Nid yw Alexa yn berson go iawn, mae hi'n gynorthwyydd personol deallus rhith a grëwyd ar gyfrifiadur a all helpu â miloedd o orchwylion o amgylch y cartref, megis:

- Darllen penawdau'r newyddion
- Dweud rhagolygon y tywydd wrthych
- Chwarae'ch hoff gerddoriaeth
- Eich deffro chi gyda galwad larwm
- Rheoli'r goleuadau o amgylch eich cartref
- Gwirio pwy sydd wrth y drws

Fe all hi hyd yn oed ddweud jôc wrthych os oes arnoch eisiau, neu ddarllen rysait ichi, neu ffonio neu anfon neges at gyfeillion a theulu, ar yr amod bod ganddynt hwythau hefyd ddyfais.




Gallwch gael cyfle i gael eich cynorthwyydd Alexa eich hun yn eich cartref drwy ennill un o ddau Echo Dot sydd ar gael yn ein cystadleuaeth wych. Mae pob dyfais yn werth £50.

I fod â chyfle i ennill Echo Dot, y cyfan y mae'n rhaid ichi'i wneud yw ysgrifennu atom a dweud wrthym sut y byddech yn defnyddio'ch dyfais. Anfonwch eich enw, cyfeiriad a manylion cysylltu at Alison Stokes, Tai Wales & West, Tŷ Bwa, 77, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU. Neu fe allwch anfon e-bost at email communications.team@wwha.co.uk – PWNC ECHO DOT. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion yw'r 30ain o Orffennaf, 2018.

Nodwch, os gwelwch yn dda: I Alexa weithio yn eich cartref, fe fydd arnoch angen wi-fi. Ar gyfer rhai o'r nodweddion, fel chwarae cerddoriaeth, efallai y bydd arnoch hefyd angen tanysgrifio, neu declynnau cartrefi deallus – fel bylbiau goleuni deallus Philips Hue, neu thermostat deallus Nest – i allu rheoli goleuadau a phethau eraill yn eich cartref.

# Mae'r Spider wedi glanio




## Mae technoleg yn newid y ffordd rydym yn cynnal gerddi a thiroedd

Mae Uwch-arolygwyr Safleoedd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn cael cymorth o amgylch cynlluniau i ddarparu peiriant torri gwellt robotig.

Rydym wedi buddsoddi mewn peiriant torri gwellt uwch-dechnoleg a reolir o bell fel ffordd lawer diogelach o dorri'r gwellt yn gysylltiedig â'n cynlluniau.

Mae'r peiriant torri gwellt llethrau Spider yn ffordd lawer diogelach o dorri gwellt ar lethrau serth, gwaith fyddai fel arfer angen dau uwch-arolygydd safleoedd a pheiriant torri gwrychoedd. Tra byddai un uwch-arolygydd safleoedd yn sefyll ar y llethr yn torri'r gwellt â pheiriant torri gwrychoedd, fe fyddai ail gydweithiwr, "bancsmon", yn sefyll ar bellter diogel ar yr ochr yn ei wylio.

Fodd bynnag, fe ellir gweithio'r peiriant torri gwellt robotig o bell gan un uwch-arolygydd safleoedd, yn sefyll o bellter diogel i ffwrdd.

Ar ôl hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio, fe ddechreuodd uwch-arolygwyr safleoedd Caerdydd a Bro Morgannwg, Nathan Cottle, Bryn Jenkins a Dean Bevan, weithio â'u "cydweithiwr cyfrifiaduredig" newydd ym mis Ebrill.

Dywedodd Nathan: "Mae'n ddarn gwirioneddol glyfar o gyfarpar. Bydd yn torri gwellt ac yn brwsio ar lethrau hyd at 55 gradd, lle nad yw'n ddiogel defnyddio peiriant torri gwrychoedd.

"Nid yn unig y mae'n ddiogelach, mae hefyd yn gyflymach. Gyda'r Spider, fe allwn dorri ardal welltog lethrog mewn 30-45 munud, pan fyddai'n cymryd mwy nag awr wrth ddefnyddio peiriant torri gwrychoedd. Nid oes gan bob un o'r safleoedd ochrau serth, ond lle mae ganddynt ochrau serth, mae hwn yn gwneud y gwaith yn llawer diogelach a chyflymach.

"Pan fo preswylwyr yn ei weld o gyntaf, maent wedi'u syfrdanu. Maent yn credu ei fod yn rhywbeth o'r gofod."

Dyma'r sylw a gafwyd gan y Swyddog Rheoli Asedau, Wayne Smith: "Mae'n beiriant anhygoel sy'n wefreiddiol i'w wylio ac i'w weithio. Bydd yn gwneud bywyd yn ddiogelach i'r uwch-arolygwyr safleoedd sy'n gwneud gwaith gwych o gadw tir ein preswylwyr yn daclus ac yn gymen."

Felly, os ydych yn byw yng Nghaerdydd neu ym Mro Morgannwg, efallai y gwnewch ei weld o allan yn eich gerddi yn o fuan.



# Mae chwaraewyr pêl-droed wedi sgorio



Mae cannoedd o bêl-droedwyr ifainc wedi'u gwobrwyo am eu sgiliau ar y cae, diolch i nawdd gan Tai Wales & West.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, fe wnaethom noddi Gŵyl Pêl-droed Iau Tref Merthyr, y gwnaeth bron i 1,000 o blant rhwng 6 a 16 oed ei mynychu.

A hithau wedi'i chynnal ddydd Sul, y 13eg o Fai a dydd Sul, yr 20fed o Fai yn Stadiwm Gymunedol Loadlok, fe gymerodd tua 140 o dimau ieuenctid o Dde a Gorllewin Cymru ran yn yr hyn sy'n ŵyl iau fwyaf De Cymru.

Ymunodd Prif Weithredwr WWH, Anne Hinchey, ag urddasolion lleol i gyflwyno medalau i'r timau ar ddiwedd y twrnamaint.

Fe ddywedodd: "Rydym yn falch o allu cefnogi'r ŵyl eto. Gyda'r cefnogwyr yn berchennog arno, mae Clwb Pêl-droed Tref Merthyr wrth graidd y gymuned, ac mae'r ŵyl hon yn ffordd wych o gael mwy o bobl ifanc yn gysylltiedig â'r clwb.

"Mae'r ŵyl yn rhan annatod o dymor gwyliau Cymru, ac mae'n wych gweld cynifer o blant o bob oed yn cael hwyl ac yn cymryd rhan mewn ychydig o gystadlu iach."

Dywedodd Phillip Mack o Glwb Pêl-droed Tref Merthyr: "Rydym mor falch bod Tai Wales & West wedi cefnogi'n digwyddiad unwaith eto. Golyga'r nawdd hael bod pob bachgen a geneth a gymerodd ran yn y digwyddiad wedi cael medalau fel cofarwydd o'u diwrnod."

## Cymorth i ddringo'r ysgol eiddo

Mae WWH yn cefnogi'r gofrestr tai fforddiadwy ar-lein newydd i helpu pobl yng Ngogledd Cymru i gael troed ar yr ysgol eiddo.

Sefydlwyd Tai Teg i symleiddio'r broses o chwilio am gartref fforddiadwy, gan restru eiddo sydd ar gael ac opsiynau prynu. Mae'r rhain yn cynnwys rhent canolraddol, Cymorth Prynu, rhannu ecwiti, rhanberchenogaeth a Rhentu i Brynu.

Bydd cartrefi sydd ar gael drwy'r gofrestr yn agored i'r rheiny sy'n ennill £16,000 i £45,000 y flwyddyn, gyda rhai opsiynau i'r rheiny sy'n ennill hyd at £60,000.

Mae WWH yn un o chwe chymdeithas tai sy'n cefnogi'r fenter, sydd dan arweiniad Grŵp Cynefin. Mae yna saith awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru hefyd yn cefnogi'r gofrestr, ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri.

Dywedodd Shayne Hembrow, Dirprwy Brif Weithredwr WWH: "Mae Tai Teg yn nodi cam sylweddol ymlaen i greu ymwybyddiaeth o gartrefi sydd ar gael i'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd prynu ar y farchnad agored yn yr ardal lle maent yn byw. Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth yng Ngogledd Cymru i wella modd o gael dai fforddiadwy i'r rheiny sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartref eu hunain."

I ymuno â Tai Teg, ewch i taiteg.org.uk, ffoniwch 0845 601 5605 neu anfonwch e-bost at info@taiteg.org.uk

Yn Ne Cymru, rydym hefyd yn cefnogi Aspire2Own i hyrwyddo perchnogaeth cartrefi cost isel ar gyfer prynwyr tro cyntaf ym Mro Morgannwg. Mae'r ymgyrch yn fenter ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg, a chymdeithasau tai United Welsh, Hafod a Newydd.

Hyrwyddir eiddo LCHO drwy'u gwefan: http:// www. valeofglamorgan.gov.uk/ en/ living/Housing/Affordable-Housing/Aspire-to-Own.aspx

# Cynllun cartrefi newydd £10 miliwn ar gyfer pobl hŷn yng Nghaerdydd



*Llun drwy garedigrwydd Powell Dobson, Penseiri*

Mae gwaith wedi dechrau ar gynllun i adeiladu'n cartrefi rhent newydd cyntaf ar gyfer pobl hŷn yn un o faestrefi mwyaf poblogaidd Caerdydd.

Bydd y cynllun gwerth £10 miliwn oddi ar Chiltern Close a Malvern Drive, Caerdydd yn creu cymuned o 82 o fflatiau wedi'u hadeiladu dros bum bloc tri llawr. Bydd gan bob un bloc rhwng 11 a 19 o fflatiau.

A hwythau wedi'u hanelu at y grŵp oedran dros 55 yn bennaf, fe fydd Chiltern Close yn darparu cartrefi modern, sy'n arbed ynni ac sy'n hawdd eu cynnal a'u cadw mewn ardal yn agos at bentrefi Llanisien a Rhiwbeina.

Bydd y fflatiau'n gymysgedd o fflatiau un a dwy ystafell wely gyda balconïau cymunol a mannau cymdeithasol, lle y gall preswylwyr gyfarfod ac ennill cyfeillion.

Mae'r cynllun drws nesaf i orsaf drenau, gyda chysylltiadau trenau rheolaidd â chanol y ddinas. Mae gan gymunedau Rhiwbeina, Y Mynydd Bychan and Birchgrove gerllaw ymdeimlad go iawn o gymuned â llawer o wasanaethau.

Symudodd y contractwyr Hale Construction i'r safle ym mis Mai i ddechrau adeiladu'r cartrefi. Maent i fod i gael eu cwblhau fesul cyfnod drwy 2019 a dechrau 2020.

Dywedodd y Rheolwr Adeiladu yn WWH, Grant Prosser: "Y rhain fydd y cartrefi newydd cyntaf rydym wedi'u hadeiladu i bobl hŷn yng Nghaerdydd ers blynyddoedd lawer.

"Yn Chiltern, mae arnom eisiau adeiladu cymuned lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr mewn amgylchedd cynhwysol."

Bydd gan bob bloc o fflatiau fan cyntedd estynedig wrth ymyl y fynedfa, lle y gall pobl eistedd a sgwrsio â'u cymdogion.

Am y cyfle i gael cynnig un o'r eiddo hyn, cofestrwch, os gwelwch yn dda, â Chyngor Caerdydd, gan y caiff cartrefi eu dyrannu drwy Gofrestr Tai Gyffredin.

Os oes gennych ddiddordeb mewn canfod mwy o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch â Grant Prosser, Rheolwr Adeiladu, 0800 0522526.

## Mae plant ysgol yn dewis enw hanesyddol i ddatblygiad newydd

Gofynnwyd i ddisgyblion o Ysgol Maeshyfryd feddwl am enw newydd ar gyfer ein cynllun gwerth £2.8 miliwn yn Y Fflint fel rhan o gystadleuaeth rhwng ysgolion, gyda'r enw buddugol yn cyfeirio at hanes y dref.

Dywedodd Matt Hall, Rheolwr Adeiladu yn WWH: "Mae bob amser yn uchafbwynt i unrhyw ddatblygiad newydd gael cynnwys y gymuned leol wrth ddewis enw.

"Roeddem wrth ein bodd ei fod nid yn unig yn dod â chartrefi fforddiadwy y mae gwir eu hangen i'r Fflint ond ei fod hefyd yn atgoffad parhaol o ddiwrnod creadigol yn yr ysgol i'r grŵp buddugol o blant."

Mae'r datblygiad yn ganlyniad partneriaeth rhwng Tai Wales & West, Cyngor Sir y Fflint ac Anwyl Construction.

Mae Romans Way yn cynnwys 14 o dai dwy ystafell, chwech o dai tair ystafell a thri thŷ unllawr, yn cynnwys un tŷ â mynediad arbennig i gadeiriau olwyn a chyfleusterau eraill sy'n ystyriol o bobl anabl.

Mae'r cartrefi hefyd yn cynnwys nodweddion 'gwyrdd', megis casgenni dŵr i gasglu dŵr glaw a biniau compost.



# Ymateb cadarnhaol i gynlluniau ar gyfer cynllun gofal ychwanegol yn Aberystwyth

Fe wnaeth yna nifer ardderchog o bobl fynychu'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gan Tai Wales & West ynglŷn â'r datblygiad gofal ychwanegol arfaethedig ym Mhlas Morolwg, Aberystwyth.

Fe wnaeth mwy na 50 o breswylwyr a chynghorwyr lleol fynychu'r cyfarfod lle y cafodd cynlluniau'u dadlennu ar gyfer cynllun gofal ychwanegol o 56 o fflatiau newydd sy'n edrych dros yr harbwr i'r de o ganol y dref.

Ddydd Mercher, yr 11eg o Ebrill, fe wnaeth uwch-swyddogion gweithredol o WWH, ynghyd â staff cynllunio, gofal a chymorth a'r ymgynghorwyr cynllunio, Asbri Planning, drefnu diwrnod agored cyhoeddus yng Nghanolfan Gymunedol Penparcau, lle roedd aelodau'r cyhoedd yn gallu gweld y cynigion, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Roedd y cynlluniau'n dangos gweddluniau a dyluniad mewnol arfaethedig y cynllun, yn ogystal â'i safle mewn perthynas ag eiddo cyfagos.

Dangoswyd lluniau hefyd o'r adeilad a oedd yna o'r blaen, fel y gallai pobl gymharu'r hen adeilad a'r hyn a gynigir fel yr adeilad newydd.

Dywedodd Shayne Hembrow, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Masnachol Tai Wales & West: "Roeddwn yn wirioneddol falch bod cynifer o bobl wedi dod a sgwrsio â ni am y cynigion. Roedd pobl yn wirioneddol gefnogol i'r angen am gynllun gofal ychwanegol yn y dref, ac fe roesant lawer o sylwadau inni ynglŷn â sut y gallem wella'r dyluniad, yn enwedig o ystyried amlygrwydd y lleoliad.

"Roedd hi'n dda cyfarfod â phobl sy'n byw drws nesaf i'r safle a siarad â nhw am sut brofiad yw byw yno a'r hyn yr hoffem ei wneud â'r safle.

"Roeddynt yn cofio'r adeilad blaenorol ac roeddynt yn awyddus o ddweud bod y datblygiad newydd yn welliant sylweddol. Rwyf yn fodlon iawn gyda nifer y bobl a hoffai'r dyluniadau, a chydag awgrymiadau a wnaed, rwyf yn hyderus y gallwn ddarparu adeilad fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i'r dref."

Dywedodd Robin Williams, Rheolwr Gyfarwyddwr Asbri Planning Consultants: "Drwodd a thro, roedd yr adborth yn wirioneddol gadarnhaol. Fe wnaethom ystyried y sylwadau cyn dechrau ar ein hymarfer Ymgynghori Cyhoeddus ffurfiol, fydd yn cau ar y 23ain o Fehefin. Ar ôl hyn, fe wnawn weithio â'r penseiri i lunio cynlluniau manwl terfynol cyn cyflwyno cais cynllunio i'r Cyngor."

Dywedodd Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Dai yng Nghyngor Sir y Fflint, y Cynghorydd Bernie Attridge: "Mae'n wych gweld unwaith eto'r effaith gadarnhaol y mae adeiladu'r cartrefi fforddiadwy newydd yn Sir y Fflint yn ei chael ar y gymuned leol.

"Rwyf yn sicr bod y disgyblion wedi mwynhau dysgu am hanes eu tref, ac fe ddylent deimlo'n hynod falch eu bod wedi enwi'r datblygiad newydd hwn."





# 101 o gartrefi newydd i Fae Caerdydd

Mae gwaith i fod i ddechrau eleni ar ein datblygiad adeiladau newydd mwyaf yng Nghaerdydd ers blynyddoedd lawer.

Ac yntau wedi'i leoli yn syth drws nesaf i Ikea, Bae Caerdydd, fe ddaw'r datblygiad yn Clive Lane, Grangetown, â 101 o gartrefi anghenion cyffredinol i'w rhentu i ardal boblogaidd Bae Caerdydd.

Bydd yn cynnwys cartrefi teuluol â gerddi mewn ardal o'r ddinas lle mae'r mwyafrif o adeiladau newydd yn fflatiau.

Mae'r cynllun gwerth £16 miliwn wedi'i ffurfio o 53 o gartrefi dwy, tair a phedair ystafell wely a 48 o fflatiau un a dwy ystafell wely, ac fe'i hadeiladir ar safle hen arglawdd rheilffordd.

Rydym yn ariannu'r datblygiad â chymorth gan Gyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd ymgyrch fawr 'llynedd i glirio'r safle gan y perchnogion blaenorol, Pegasus Developments.

Cyn y gallai'r clirio ddechrau, fe ail-gartrefwyd 500 o ddallnadroedd ym Mharc Gwledig Cosmeston ym Mro Morgannwg.

Cafwyd gwared â bron i 150,000 o dunelli metrig o bridd o'r ardal, a gafodd wedyn ei ailgylchu a'i ailddefnyddio i ddatblygu cynllun adfywio St Modwen ar safle hen Waith Dur Llanwern, Casnewydd, ac yn natblygiad Glannau'r Bari.

Dywedodd Anne Hinchey, Prif Weithredwr yn WWH: "Rydym yn llawn cyffro o fod wrth graidd y prosiect hwn i adeiladu 101 o gartrefi modern, o ansawdd



Argraff arlunydd o'r cynllun newydd

## AR Y GWEILL

**Gorllewin Cymru: Ceredigion**

**Aberystwyth:** Mae tir hefyd wedi'i gaffael yn hen Dŷ Tafarn y Tollborth ym Mhenparcau a Phenrhyncoch.

Yn amodol ar y caniatâd angenrheidiol, fe fydd y safleoedd hyn, ynghyd ag eraill rydym yn gobeithio'u caffael yn y sir, yn darparu tua 120 o gartrefi newydd ar gyfer rhentu cymdeithasol i bobl leol yng Ngheredigion.

**Gogledd Cymru: Wrecsam**

**Wrecsam:** Mae WWH wedi prynu tir drws nesaf i westy yn Wrecsam gyda golwg i adeiladu 25 o gartrefi newydd fforddiadwy.

Byddai'r datblygiad gwerth £3.93 miliwn yn yr hen Jacques

uchel, sy'n arbed ynni yn un o ardaloedd mwyaf poblogaidd Caerdydd."

"Daw'r cynllun hwn â thai teuluol, â gerddi a mannau agored, i ardal o'r brifddinas sydd ar hyn o bryd yn gartref i fflatiau gan mwyaf.

"Bydd ein cartrefi newydd yn ddeniadol, yn fodern ac yn bwysicach na dim, yn fforddiadwy i deuluoedd lleol i'w rhentu.

Disgwylir i waith adeiladu gymryd tair blynedd i'w gwblhau.

Am y cyfle i gael cynnig un o'r eiddo hyn, cofrestrwch â Chyngor Caerdydd, os gwelwch yn dda, gan y bydd cartrefi'n cael eu dyrannu drwy Gofrestr Tai Gyffredin Cyngor Caerdydd.



Yard, wrth ymyl Premier Inn, yn cynnwys 15 o dai dwy ystafell wely, 4 o dai tair ystafell wely, 6 o fflatiau 1 a 2 ystafell wely.

Prynwyd y safle oddi wrth Castlemead Ltd, gyda chais am ganiatâd cynllunio i fod i gael ei gyflwyno'r haf hwn.


# Mae adeiladu mwy o gartrefi yng Nghymru yn bwysig inni

Mae adeiladu mwy o gartrefi o ansawdd yn y mannau lle mae arnoch chi eisiau byw yn parhau i fod yn ffocws i'n rhaglen ddatblygu uchelgeisiol.

Yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn, fe wnaethom gwblhau 12 o gartrefi newydd yn Y Gelli Gandryll, 44 yn Ffordd Williamson, Caerdydd, a 9 yn Finch Court, Llandrindod.

Dechreuodd gwaith ar 82 o gartrefi i ymddeol iddynt yn Clos Chiltern, Caerdydd, 30 o unedau anghenion cyffredinol ym Mhenwallis, Abergwaun, ac fe wnaethom lofnodi contractau ar 83 o gartrefi arall.

Mae ein prosiect i lunio contractau partneriaeth hirdymor â chontractwyr yn parhau, a'n nod yw cael y rhain ar waith erbyn yr hydref, fydd yn caniatáu inni gynyddu'n rhaglen newydd o adeiladu cartrefi.




Rydym wedi dechrau adeiladu 195 o gartrefi newydd i helpu â'r galw am dai yng Nghymru.




Fe wnaethom gwblhau adeiladu 65 o gartrefi newydd



# Mae cymuned yn codi o saf hen dafarn yng Nghaerdydd



Mae preswylwyr yng Nghaerdydd wedi symud i mewn i'w cartrefi newydd gan Tai Wales & West Housing, a adeiladwyd ar safle hen dafarn.

Chwalwyd Tafarn yr Hendre ar Heol Hendre, Trowbridge ar ôl tân sawl blwyddyn yn ôl, ac mae WWH wedi adeiladu 14 o dai, fflatiau a thai unllawr yn ei le.

Fe ymwelodd y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson, o Gaerdydd, sy'n cynrychioli ward Trowbridge, â'r safle ac fe gyfarfu â rhai o'r teuluoedd a symudodd yno ym mis Ebrill. Fe gyfarfu hi â Debbie Malkus, sy'n nain, a symudodd yn ddiweddar i'w fflat llawr daear newydd o fflat llawr cyntaf cyfagod yn Llaneirwg.

Dywedodd Mrs Malkus: "Rwy'n hoff iawn o fyw yma, mae popeth yn newydd sbon. Mae'n wych cael popeth ar un lefel, ac mae'r ardd yn ddelfrydol ar gyfer fy nghi.

"Rwy'n cael problemau â gwaelod fy nghefn a fy nghlun, ac felly roedd hi'n anodd cerdded i fyny'r grisiau a mynd i mewn i'r gawod dros y baddon.

"Mae'r safle mor heddychlon ac mae'r cymdogion yn gyfeillgar. Mae yna ymdeimlad gwych o gymuned."

> "Rwy'n hoff iawn o fyw yma, mae popeth yn newydd sbon. Mae'n wych cael popeth ar un lefel, ac mae'r ardd yn ddelfrydol ar gyfer fy nghi"

Fe roes WWH y contract i Pendragon Design & Build adeiladu'r cynllun o chwe fflat 1 ystafell wely, pedwar tŷ 2 a 3 ystafell wely, a dau dŷ unllawr. Mae'r datblygiad gwerth £2 filiwn ar Green Meadows Road a Heol yr Hendre yn bartneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd gyda chymorth £1.2 filiwn o Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Mae gan yr holl gartrefi systemau chwistrellu ac mae gan y rheiny â gerddi preifat siediau, rheseli beiciau a chasgenni dŵr.

Maent wedi'u hadeiladu i fod yn hygyrch i breswylwyr anabl, ac mae gan y tai unllawr a'r fflatiau llawr daear ystafell wlyb a drysau lletach.

Dywedodd y Cynghorydd Bowen-Thomson: "Roedd hi'n fendigedig cyfarfod â rhai o'r preswylwyr a gweld mor gyflym y maent wedi ymgartrefu. Mae llawer o'r bobl sydd wedi symud i mewn wedi tyfu'n oedolion yn yr ardal ac mae ganddynt deulu yn yr ardal, ac felly mae yna ymdeimlad go iawn o gymuned, sydd mor bwysig.


"Fe wnaed argraff arnaf gan ansawdd y cartref a'r gorffeniad.



fle
d




# Fe roesom allweddi i 264 o breswylwyr i'w cartref newydd



Rydych yn parhau i ddweud wrthym ei bod hi'n bwysig eich bod cael yr amser a'r cyfle i ystyried a yw'r eiddo a gynigir yn iawn i chi. Ein nod yw cael y sgwrs gywir â'r rheiny y cynigir eiddo iddynt i wneud yn sicr eu bod yn barod i symud a'u bod yn sicr eu bod yn gwneud y penderfyniad cywir iddynt.


Rydym, yn y chwarter hwn, wedi helpu ymgeiswyr a wrthododd gynnig o lety oherwydd nad oedd yr eiddo yn iawn iddyn' nhw, neu oherwydd amgylchiadau'u teulu. Yn y sefyllfaoedd hyn, rydym wedi gallu'u cynorthwyo i wneud achos i'r awdurdod lleol i wneud yn sicr eu bod yn cadw'u lle ar eu rhestr aros tan y daw eiddo mwy addas ar gael.

Y pethau bychain hynny, fel darparu lloriau i'r preswylwyr yn eu cartrefi newydd, sy'n dangos bod Wales & West Housing yn ofalgar. Cartrefi fel y rhain yw'r union beth mae arnom eu hangen yn Trowbridge."



**59%**

o'n cartrefi wedi'u gosod ar ôl eu gweld y tro cyntaf






# Gwobr Uchel Siryf ar gyfer prosiect i bobl sy'n gadael carchardai



*Louise Webster, ar y chwith, a Natasha Thomas, ar y dde, gydag Uchel Siryf Dyfed.*

Mae ein Gwasanaeth i Gyn-droseddwyr yn Gorllewin Cymru wedi derbyn Gwobr Uchel Siryf Dyfed am ei lwyddiant yn cefnogi cyn-droseddwyr ac unigolion mewn perygl o droseddu yng Ngheredigion.
Roedd y gwasanaeth yn un o grŵp o sefydliadau a busnesau lleol a gydnabuwyd yng ngwobrau eleni.

Fe wnaeth y Rheolwr Tai â Chymorth, Louise Webster, a'r Swyddog Tai â Chymorth, Natasha Thomas, fynychu'r seremoni yn Aberystwyth, lle y gwnaeth Uchel Siryf Dyfed, Mrs Sue Balsom, gyflwyno'u gwobr iddynt.


Mae ein Gwasanaeth i Gyn-droseddwyr yn darparu cefnogaeth i unigolion i leihau'r risg o droseddu, i'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu sugno i'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol ac i bobl sy'n gadael carchardai.

Gweithiwn yn agos â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol , tîm Plismona Rheoli Troseddwyr Integredig Ceredigion a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, gan ddarparu cefnogaeth ledled Ceredigion.

'Llynedd, fe wnaethom gynorthwyo 45 o bobl; roedd rhai yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref ac fe gawsant gymorth i gael tenantiaethau diogel, cynaliadwy, fe gafodd rhai gymorth i gael addysg neu waith cyflogedig.

Dywedodd yr Uchel Siryf: "Mae rôl Uchel Siryf wedi'i chysylltu'n agos â'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol ac atal troseddu, ac felly mae'n galonogol iawn clywed am lwyddiannau'r Gwasanaeth Troseddwyr yn yr ardal hon."
Dywedodd Louise: "Roedd hi'n fendigedig cael ein cydnabod ymysg cynifer o gyrff gwirfoddol haeddiannol. Rydym yn falch o'r gwaith y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i wneud gwahaniaeth ond y gwir wobrau yw gweld y ffordd rydym yn helpu pobl i newid eu bywydau'n llwyr."


# Ble mae'ch arian yn mynd pan ydych yn talu rhent?




- **3%** Datblygiadau newydd
- **23%** Pobl
- **19%** Ceginau, ystafelloedd ymolchi a chyfarpar newydd
- **18%** Cynnal a chadw
- **15%** Llog ar Fenthyciadau
- **8%** Gwaith trwsio sylweddol
- **5%** Ad-daliadau ar Fenthyciadau
- **9%** Gorbenion

Caiff bron i hanner bob £1 y rhowch chi mewn rhent i ni ei ddychwelyd i foderneiddio'n cartrefi presennol. Yn y chwarter hwn, fe wnaethom wario 45 ceiniog o bob £1 ar geginau ac ystafelloedd ymolchi newydd, atgyweirio a chynnal a chadw. Mae'n rhan o'n hymrwymiad i fuddsoddi £35 miliwn dros y tair blynedd nesaf i wneud eich cartrefi'n fodern ac yn rhatach i'w cynnal ac i'w cadw'n gynnes.

## Yr hyn y mae'n ei gostio am bob cartref i redeg ein busnes



# Pwysigrwydd gwirio'r offer trydanol yn eich cartref

Fe achosir bron i chwech allan o 10 o danau yng Nghymru gan drydan, ac o ganlyniad i'r tanau hynny, fe gafodd 285 o bobl eu lladd neu'u hanafu, yn ôl ffigurau diweddaraf.

Rydym fel eich landlord am sicrhau eich bod mor ddiogel ag sydd bosibl.

### Felly beth ydyn ni'n mynd i'w wneud am y peth?

Yn y blynyddoedd diweddar fe fuom yn uwchraddio'r unedau defnyddwyr yn eich cartrefi gydag RCD ('Residual Current Device') neu switsh tripio. Golyga hyn fod y cylchedau wedi'u diogelu ac y gwnânt "dripio" os bydd yna nam trydanol yn eich cartref. Fe fu hwn yn gam mawr ymlaen o ran atal damweiniau trydanol, ond mae'n effeithiol dim ond cyn belled â bod yr RCD yn gweithio'n briodol.

Yn rhifyn diwethaf In Touch, fe roddom gyngor ar sut i brofi'r RCD yn eich cartref, ac mae'n arfer da ei brofi o leiaf bob tri mis.

Rydym hefyd wedi codi lefel yr amddiffyniad tân y byddwn yn ei ffitio fel gofyniad safonol. Dylech fod â synhwyrydd mwg ym mhob gofod cylchrediad a synhwyrydd gwres yn eich cegin. Buom yn cwblhau'r uwchraddiadau hyn ochr-yn-ochr â gwaith arall fel adnewyddiadau a phrofion trydanol, felly os yw'ch rhai chi eto i'w cwblhau, peidiwch â phryderu, fe ddown atoch chi cyn gynted ag y gallwn ni.

Yn ogystal, mae yna rwymedigaeth arnom ni, fel eich landlord, i sicrhau bod yr offer trydanol yn eich cartref yn ddiogel tra byddwch chi'n byw yno.

Mae gennym ni i gyd lawer mwy o gyfarpar trydanol sy'n creu mwy o lwyth ar gylchedau sy'n bodoli yn barod. Byddwn yn ymgymryd â phrawf trydanol ar eich cartref bob 5 mlynedd i sicrhau bod pob un o'r cylchedau yn eich cartref yn dal i fod mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w defnyddio. Fel hyn, fe allwn wneud unrhyw atgyweiriadau ymhell cyn y bydd yna broblem ddifrifol.

Helpwch ni, os gwelwch yn dda, drwy ganiatáu mynediad pan fyddwn yn cysylltu â chi. Fe gymer y prawf oddeutu 3 awr i'w gwblhau ond mae'n wiriad cynhwysfawr i sicrhau'ch diogelwch parhaus.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynglŷn â diogelwch trydanol, mae croeso ichi gysylltu â'r Tîm Cydymffurfio ar y rhif Rhadffon, gan ddewis opsiwn 1.





# Eich diogelwch personol

Gall technoleg newydd ein helpu â'n gorchwylion dyddiol, o gynnau'r gwresogi i ail-stocio'n hoergell.

Felly pam na ddylai ein helpu ni a'n teuluoedd i fyw'n fwy annibynnol yn ein cartrefi wrth inni heneiddio?

Mae'r staff yn ein canolfan larymau argyfwng personol yn cynnal cynllun peilot i arbrofi math newydd o larwm argyfwng personol, sy'n defnyddio technoleg ffôn symudol i gysylltu preswylwyr â'n canolfan argyfwng – lle bynnag y byddant.

Dyfais lwybro GPS fechan aildrydanadwy yw The Pebbell ® a gellir ei chludo yn eich poced, neu gellir ei hatodi at dorch allwedd.

Bydd y ddyfais, o'i sbarduno, yn rhybuddio'n tîm monitro larymau, a bydd y llwybr GPS yn dangos ymhle'r ydych chi fel y gallwn rybuddio eich teulu neu'r gwasanaethau brys. Bydd hyn yn rhoi'r sicrwydd ychwanegol y gallwn ddal i siarad â chi drwy'r ddyfais os byddwch yn cael codwm neu argyfwng pan fyddwch i ffwrdd o'r cartref.

Mae gan y ddyfais system lwybro hefyd, a all fod yn gysur i deuluoedd pobl sydd â dementia. Gellir gosod y llwybro i seinio rhybudd os bydd y gwisgwr yn crwydro y tu allan i ardal sy'n anghyfarwydd iddynt. Yna, fe all y sawl sy'n ymdrin â'r alwad argyfwng weld ymhle y mae'r person ar y map, a hysbysu eu perthynas agosaf.

Dywedodd Christine Bowns, Rheolwr y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid: "Mae pobl hŷn yn llawer mwy bywiog y dyddiau hyn ac mae arnom eisiau gallu cynnig ystod ehangach o wasanaethau cymorth brys i'w helpu i gynnal eu hannibyniaeth, ac eto'n dal i deimlo'n ddiogel ac yn sicr.

"Nid ydym yn disodli'r system larwm gwddf traddodiadol, sy'n gweithio'n dda iawn i'r 11,500 o bobl sydd â nhw. Bydd y larymau gwddf yn effeithiol pan gânt eu hactifadu yng nghartref person drwy'r uned reoli sy'n gysylltiedig â lein ffôn.

"Ond rydym yn awyddus i edrych ar opsiynau gwahanol drwy ddefnyddio technoleg ffôn symudol.

"Mae "Pebbell ® a dyfeisiadau larwm cludadwy eraill tebyg wedi bod yn effeithiol gyda phreswylwyr mewn rhannau eraill o'r wlad, felly byddwn yn eu rhagbrofi gydag ambell wirfoddolwr ym mhob ardal o Gymru i wneud yn siŵr eu bod yn addas i breswylwyr Tai Wales & West.

"Dyddiau cynnar yw'r rhain o ran ein profion. Unwaith y byddwn yn fodlon, fe wnawn drafod y fargen orau ar gyfer ein preswylwyr a darparu mwy o wybodaeth i bawb." Rydym hefyd yn edrych ar ddyfeisiadau eraill sy'n defnyddio technoleg debyg, o ffonau symudol sydd â'r nodwedd argyfwng y gellir ei hateb gan ein tîm monitro larymau, i watsiau sydd â nodweddion tebyg iawn.

## Tair dyfais dechnoleg gynorthwyedig i helpu o gwmpas y cartref

### 1. Atgoffâd wrth Gerdded



Mae'r Atgoffâd wrth Gerdded yn ddyfais sy'n hawdd ei gosod ac sy'n annog pobl â dementia drwy ddefnyddio negeseuon llafar. Gallwch recordio eich neges eich hun ar gyfer y person a gosod y ddyfais yn agos at ddrws lle gall y synhwyrydd isgoch ddatgelu symudiad a chwarae'r neges a recordiwyd. Er enghraifft, os bydd person yn anghofio'i allweddau, gellir recordio neges i'w hatgoffa wrth iddynt adael eu cartref.

**Cost £50**

### 2. Cofweinyddcloc calendr




Mae MemRabel II wedi'i ddylunio i fod yn gydymaith



gofal sy'n cynnig cymorth gweledol a chlywadwy i helpu pobl sydd â dementia ac sy'n cael anhawster cofio arferion bywyd dyddiol arferol fel bwyta, yfed yn rheolaidd, cymryd meddyginiaeth neu gofio mynd i'r gwely.

Bydd y sgrîn arddangos eglur, fawr yn dangos y diwrnod, y cyfnod amser a'r amser gwirioneddol. Mae ganddo gyfres o 10 o larymau dyddiol, a gellir ei bersonoli ag atgoffâd fideo neu sain, gyda llais neu wyneb cyfarwydd yn rhoi cyfarwyddiadau.

**Cost £115**

**3. Canfyddwch eitemau fydd o'u lle â Loc8tor Lite**

System olrhain yw Loc8tor Lite, ac mae'n caniatáu ichi ddod o hyd i eitemau o gwmpas eich cartref.




Atodwch y tag dychwelyd i eitem a phan gollwch chi hi, bydd eich set llaw gyfeiriadol yn eich arwain ati.

Cost £55.99

***Mae'r eitemau i gyd ar gael drwy siop ar-lein Cymdeithas Alzheimer:***

***https://shop.alzheimers.org.uk/***



# A oes rhywun am de?

Does yna ddim byd cystal â dod at eich gilydd â chyfeillion a chymdogion dros baned, ac fe allwch wneud yn union hynny wrth godi arian ar gyfer elusen y mis Gorffennaf hwn.

Cynhelir digwyddiadau Te Prynhawn Gofal Canser y Fron ar hyd a lled y wlad drwy gydol y mis, ac mae cyfranogi'n hawdd.

Y cwbl sy'n rhaid i chi ei wneud yw dod â'ch cymuned neu'ch teulu ynghyd, rhoi'r tegell ar y tân, pobi ambell i deisen a dechrau codi arian.

Mae'r cynllun yn ffordd ardderchog o ddod i adnabod eich cymdogion. Ac unwaith y byddwch wedi dod o hyd i'r lle priodol ac wedi pennu dyddiad ac amser, gallwch archebu pecyn codi arian am ddim gan Ofal Canser y Fron i hyrwyddo'ch digwyddiad.

Mae'r pecynnau'n cynnwys posteri a dyluniadau i'w printio,a gwneud addurniadau, baneri a rhubanau.

Gallech hefyd ddenu'ch cymdogion i gyfranogi drwy ofyn iddynt ddod â rhywfaint o deisennau cartref â nhw i'w gwerthu yn eich arwerthiant neu fe allech drefnu cwis i ychwanegu rhywfaint o gystadleuaeth gyfeillgar at yr achlysur?

Mae yna lawer o syniadau ar gyfer rysetiau ar wefan yr elusen, yn ogystal â grŵp cymunedol lle y gallwch gysylltu â hyrwyddwyr Te Prynhawn eraill i rannu syniadau ar Facebook.

Bydd yr holl arian a godir gennych y diwrnod hwnnw'n mynd tuag at Ofal Canser y Fron, yr unig elusen arbenigol drwy'r Deyrnas Unedig i gyd sy'n darparu cefnogaeth i ferched, dynion, teulu a chyfeillion yr effeithiwyd arnynt gan ganser y fron. Gellir anfon arian at yr elusen fel siec neu drwy daliad ar-lein ar wefan yr elusen.

Os hoffech gynnal eich Te Prynhawn eich hun, fe allwch archebu pecyn codi arian am ddim ar www. breastcancercare. org.uk/cuppa neu ffonio drwy 0300 100 4442. Chwiliwch am 'Afternoon Tea 2018' i ymuno â grŵp Facebook Breast Care Cancer.

Afternoon tea breast cancer care

# Cadw’n ddiogel â dŵr

Pan fydd yna achosion difrifol y bydd Clefyd y Llengfilwyr yn taro’r penawdau fel arfer, ond mae’r bacteria sy’n ei achosi’n bresennol ar lefelau diogel mewn llawer o leoedd.

Dyma’n canllaw ni ar ei achosion a’r hyn y gallwn i gyd ei wneud i gadw’n ddiogel.

## Beth ydi e?

Clefyd o fath niwmonia yw Clefyd y Llengfilwyr ac fe’i hachosir gan facteria Legionella. Bydd y bacteria’n digwydd yn naturiol mewn ffynonellau dŵr, fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd, ac fe fydd y niferoedd at ei gilydd yn isel.

Ceir yr afiechyd drwy fewnanadlu defnynnau mân iawn o chwistrell sy’n caniatáu i’r bacteria fynd i mewn i’ch ysgyfaint a pheri haint, a’r canlyniad yw symptomau fel y ffliw. Bydd pobl yn cael eu heintio pan fyddant yn mewnanadlu defnynnau dŵr o ffynhonnell ddŵr sydd wedi’i halogi, fel tyrau oeri, systemau aerdymheru a phyllau sba. Bydd symptomau cynnar yn cynnwys gwayw yn y cyhyrau, blinder, cur pen, peswch sych a thwymyn.

## Beth fydd yn ei achosi?

Mae’r bacteria Legionella yn bresennol yn eich system ddŵr drwy’r amser. Yn gyffredinol, fe fydd y dŵr yn llifo’n barhaus drwy’ch system, felly nid oes amser iddynt luosogi hyd lefelau niweidiol.

Bydd y bacteria’n tyfu orau ar dymheredd cynnes, rhwng 20°C a 45°C.

## Beth ydym yn ei wneud i’ch cadw’n ddiogel?

Yn ein cartrefi lle bydd yna systemau dŵr cymunedol, byddwn yn rheoli diogelwch dŵr drwy ofalu bod y dŵr poeth yn boeth, a’r dŵr oer yn oer. Mae o mor syml â hynny, mewn gwirionedd!

Byddwn yn monitro tymheredd yn rheolaidd ac yn gofalu storio cyn lleied o ddŵr ag sy’n bosibl yn ein cynlluniau i gyd.


Yn ogystal, byddwn yn fflysio cawodydd a basnau golchi dwylo cymunedol os na chânt eu defnyddio yn aml iawn.

## Beth a allwch chi’i wneud i gadw’n ddiogel?

Mae’r perygl i chi yn eich eiddo eich hun yn eithriadol isel, ond mae yna ambell beth syml ichi fod yn ymwybodol ohonynt:

- Defnyddiwch dapiau’ch cegin i brofi’r dŵr poeth ac oer, yn hytrach na’ch baddon, gan fod rhai o’n heiddo a’n cynlluniau ymddeol sy’n fwy newydd wedi’u ffitio â falfiau cymysgu yn yr ystafell ymolchi.
- Wrth redeg dŵr o’ch tapiau, os na fydd y dŵr yn teimlo cyn boethed ag arfer, neu’ch dŵr oer ddim yn oer, rhowch wybod am hynny i ni.
- Os byddwch yn mynd i ffwrdd am unrhyw gyfnod o amser, fe fyddem yn argymell eich bod yn rhedeg y dŵr yn eich eiddo pan fyddwch yn dychwelyd. Gallwch wneud hynny drwy redeg y gawod am ddau funud cyn mynd i mewn iddi; fflysio’r toiled gwpwl o weithiau (â sedd y toiled wedi’i chau) a hefyd rhedeg tapiau’r sinc.
- Os byddwch yn defnyddio pibell ddŵr yn eich gardd, yna fe fyddem yn argymell eich bod yn ei draenio wedi ichi orffen ei defnyddio, fel na adewir unrhyw ddŵr i gronni yn y tŷ.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â diogelwch dŵr, rhowch wybod inni drwy ffonio **0800 052 2526**, os gwelwch yn dda.



# Gweithio yn y byd go iawn



*Y Gweinyddwr Adnoddau Dynol, Lucy Clewlow, gyda Lleucu Mains*

Mae'r fyfyrwraig brifysgol, Lleucu Mains, wedi bod yn dysgu am sut rydym yn gweithio, fel rhan o'i chwrs astudiaethau busnes dros dair blynedd.

Fe aeth y fyfyrwraig ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd at WWH am leoliad gwaith 15 niwrnod fel rhan o'i chwrs Gradd, ac fe gynigiwyd lleoliad iddi yn ein timau Adnoddau Dynol a Chysylltiadau Cyhoeddus.

Yn ystod y lleoliad, fe weithiodd ar brosiectau staffio ac fe wnaeth ymchwil ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaeth hefyd helpu yn y Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth blynyddol.

Dywedodd Lleucu, sy'n siaradwr Cymraeg, y mae'i thad yn rhedeg WCS Environmental and Building Maintenance yng Ngheredigion: "Mae o wedi rhoi profiad gwirioneddol dda imi.

"Mae'r lleoliad wedi rhoi cipolwg da imi ar gwmni bywyd go iawn, a sut maent yn gweithio. Mae wedi dangos imi'r math o waith a swyddi posibl y gallwn eu gwneud, unwaith y byddaf yn graddio o brifysgol."

Dywedodd Giles Taylor, Rheolwr Adnoddau Dynol WWH: "Ceisiwn gynnig lleoliadau gwaith i fyfyrwyr pan deimlwn y gallwn wneud gwir wahaniaeth. Roeddem yn gallu rhoi'r cyfle i Lleucu weithio ar brosiectau 'byw' gyda'n tîm, ac i drafod sut y gweithiwn, yn ogystal â helpu gyda'i gwaith cwrs.

"Gobeithiwn y bydd y lleoliad yn gwella'i sgiliau gwaith ac yn rhoi rhywbeth ychwanegol iddi ychwanegu at ei CV pan fydd hi'n gadael y brifysgol ac yn dechrau chwilio am waith."

## Agor drysau ar gyfer prentisiaid Technoleg Gwybodaeth (TG) y dyfodol

Yn gynharach yr haf hwn, fe wnaethom lansio ymgyrch i chwilio am brentis TG&Ch newydd i ymuno â'n tîm yn ein prif swyddfa yng Nghaerdydd.

Yn yr un ffordd ag rydym yn cynorthwyo'n preswylwyr i ganfod cartref, roedd arnom eisiau rhoi cymorth i rywun ddychwelyd i'r byd gwaith neu i ddechrau ar yrfa newydd mewn TG&Ch.

Roeddem yn chwilio am rywun dibynadwy, gweithgar ac ymrwymedig ac agored i ddysgu. Fel rhan o'r rôl, fe fyddwn yn cynorthwyo'r prentis newydd i fynychu coleg unwaith yr wythnos i weithio tuag at gymhwyster lefel mynediad ar gyfer gyrfa mewn TG&Ch. Am y pedwar diwrnod arall o'r wythnos, fe fyddant yn gweithio yn ein hadran TG&Ch yn ein prif swyddfa yn Llanisien, Caerdydd, sy'n gyfrifol am yr holl rwydweithiau wi-fi ledled ein cynlluniau yn ogystal â'r dechnoleg sy'n helpu'n staff i wneud eu gwaith.

Cyn y dyddiad cau ym mis Mehefin ar gyfer ceisiadau am y swydd, fe wnaethom gynnal dwy noswaith agored yn ein prif swyddfa i roi'r cyfle i brentisiaid dichonol gyfarfod â staff o'n hadran TG&Ch ac Adnoddau Dynol a dod i wybod mwy am ein sefydliad.

Dywedodd Richard Troote, Pennaeth TG&Ch: "Mynychwyd y nosweithiau agored gan nifer dda o bobl, a'u nod oedd chwalu rhai o'r rhwystrau a allai fod wedi atal pobl dda rhag ymgeisio. Roeddem yn chwilio am geisiadau gan bobl o bob mathau o gefndiroedd nad oeddynt efallai wedi teimlo bod ganddynt y profiad perthnasol, a thrwy gyfarfod â nhw yn y nosweithiau agored, rwy'n gobeithio ei fod o wedi rhoi blas iddynt ar y gwaith ac wedi dangos iddynt y gallant ymgeisio.

"Gwnaed argraff ar y bobl a fynychodd gan y lefel o gymhlethdod mewn systemau TG a weithredir yn WWH, ac fe wnaethant fwrw sylw ar y technolegau hollol arloesol y byddant yn gweithio â nhw.

"Rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld ymgeiswyr da ac ymrwymedig iawn, o ganlyniad i'r nosweithiau agored."

Fe gaeodd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am y swydd ar y 3ydd o Fehefin, ac roedd penodiadau i fod i gael eu gwneud erbyn diwedd y mis.

# Dathlu pobl anhygoel

## Crynodeb o'r holl enillwyr yn ein 10fed Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth

Cydnabuwyd pum preswylydd arbennig iawn am ddegawdau o waith caled ac ysbryd cymunedol yn ein Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth 2018.

Mynychodd mwy na 200 o breswylwyr a'u cyfeillion a'u teuluoedd ddigwyddiad arbennig eleni yn y Vale Resort yn Hensol, ger Caerdydd.

I nodi'r pen-blwydd eleni, fe wnaethom gyflwyno categori untro i wobrwyo preswylwyr sydd wedi gwneud cyfraniad hirbarhaol i'w cymunedau.

Yr enillwyr oedd Dee Thorne o Don Pentre', Y Rhondda; Glenys Vandervolk o Gaerdydd; Eric Fitton o Sir Ddinbych; Jeff Bunce o Ben-y-bont ar Ogwr; a Jan Derrett o Gaerdydd.

I nodi 10fed pen-blwydd y gwobrau, fe ddywedodd Paul Gibson, o Gibson Specialist Technical Services, noddwyr y prif ddigwyddiad: "Roedd pob un o'r enillwyr a'r rheiny yn y rowndiau terfynol yn gwir haeddu'u gwobrau. Roedd hi'n noson fendigedig, yn dathlu cyflawniadau pobl anhygoel.

"Nid oes yr un sefydliad arall fel Tai Wales & West yn y ffordd y mae'n dathlu cyflawniadau'i breswylwyr a chymunedau, ac roeddem yn falch o'i gefnogi eto."

Dywedodd Prif Weithredwr WWH, Anne Hinchey: "Eleni oedd un o'n digwyddiadau mwyaf llwyddiannus erioed. Roeddem mor falch bod dros 200 o drigolion â'u cyfeillion ac aelodau'u teulu wedi ymuno â'n staff a'n partneriaid i ddathlu'u hysbryd cymunedol a'u hanhunanoldeb, yn null Tai Wales & West.

"Fe wnaeth y rheiny yn y rowndiau terfynol eleni argraff arnom yn fwy nag erioed. Cawsom ein darostwng gan y pethau y mae ein preswylwyr yn eu gwneud i gyfrannu at eu cymunedau, eu cyfeillion a'u cymdogion a chan wir wneud gwahaniaeth i'r bobl o'u hamgylch."

Rhoddir arian a godir o'r digwyddiad i mewn i gynllun grant Gwneud Gwahaniaeth gan Tai Wales & West, sy'n helpu i roi hwb i brosiectau cymunedol ac amgylcheddol a chyfleoedd hyfforddiant a gwaith ar gyfer preswylwyr.

Roedd y gwobrau'n agored i'r 20,000 o breswylwyr sy'n byw yn ein heiddo ledled Cymru, ac roeddynt yn dathlu cymdogion da, arwyr lleol, a phrosiectau amgylcheddol a chymunedol a'r rheiny sydd wedi gwneud newidiadau ysbrydoledig a llawn cymhelliant i'w bywydau.

Diolchiadau MAWR i'n holl noddwyr eleni:

CJS Electrical, Contour, Anwyl, Solar Windows, Thorlux Lighting, Envirovent, Bbi Group, Thermal Earth, Ffenestri Eryri, Polyflor, 1st Communications, Vaillant, Ian Williams, Dulux, MACP, Days Rental, Danfoss, Stelrad, Paul Fears Photography, Inhouse Manager, WCS Environmental & Building Maintenance, Jehu Group, Symphony Kitchens, Simmons Services, RLD Construction, Penseiri Pentan, Lee Poole & Sons, Jamson Estates, PMD, EWIS, M&K Pest Control, Xpedient Print Services, IRP, Ferrier Hart Thomas, Scarlets, Castlemead Group Limited, the Vale Resort, Village Hotels, Aico a Valor.

### DEE THORNE



Mae Dee wedi bod yn hyrwyddwr dros hawliau pobl anabl ac mae'n trefnu gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer ei chymdogion yng nghynllun ymddeol Tŷ Ddewi yn Nhon Pentre, er gwaethaf dioddef o strôc wyth mlynedd yn ôl a adawodd hi'n methu â cherdded ac a amharodd ar ei lleferydd.

### GLENYS VANDERVOLK



Mae Glenys, sy'n arddwraig frwd, wedi helpu i dyfu Gardd Gymunedol lwyddiannus Llaneirwg wrth graidd un o ardaloedd tai mwyaf Caerdydd.

# Yr holl enillwyr a'r rheiny a gyrhaeddodd y rowndiau terfynol

**Gwobr Arbennig ein 10fed Pen-blwydd, a noddwyd gan CJS Electrical**
Enillwyr: Jan Derrett, Oakmeadow Court, Caerdydd; Dee Thorne, Tŷ Ddewi, Rhondda Cynon Taf; Jeff Bunce, Western Court, Pen-y-bont ar Ogwr; Eric Fitton, Nant y Môr, Sir Ddinbych; Glenys Vandervolk, Clos y Gornant, Caerdydd.

**Cymydog Da, a noddwyd gan MACP**
Enillydd: Elaine Vaughan, Tŷ Ddewi, Rhondda Cynon Taf
Yn y Rowndiau Terfynol: Irene Hartley, Llys Hanover Court, Caerdydd; Graham Middleton, Christchurch Court, Powys; Mary Fitzgerald, Oakmeadow Court, Caerdydd

**Mynd yn Wyrdd, a noddwyd gan Contour**
Enillydd: Melanie Banner, Garn Las, Sir Benfro
Yn y Rowndiau Terfynol: Robert Simpson, Llys Hanover Court, Conwy;Garddwyr Tŷ Brynseion Gardeners, Merthyr Tudful; Pauline Coombes, The Beeches, Pen-y-bont ar Ogwr

**Dechrau o'r Newydd, a noddwyd gan Anwyl Construction**
Enillydd: Sara Thomas, Hightown, Wrecsam
Yn y Rowndiau Terfynol: Lauren Litchfield, Twyncarmel, Merthyr Tudful; John Jenkins, Clos Tan y Fron, Pen-y-bont ar Ogwr; Jason O'Brien, Llandrillo yn Rhos, Conwy; James Cope, Rhiwabon, Wrecsam

**Pontio'r Bwlch, a noddwyd gan Thorlux Lighting**
Enillydd: Abby Kinloch, Llys Glan yr Afon, Powys
Yn y Rowndiau Terfynol: Jan Derrett, Oakmeadow Court, Caerdydd; Eric Fitton, Nant y Môr, Sir Ddinbych; Jermaine Drennan, Aberystwyth, Ceredigion

**Hyrwyddwr Lles, a noddwyd gan Envirovent**
Enillydd: Christine Ellis, Llys Hanover, Pen-y-bont ar Ogwr
Yn y Rowndiau Terfynol: Claire Halliday, Prestatyn, Sir Ddinbych; Y Clwb Strôc / The Stroke Club, Tŷ Gwaunfarren, Merthyr Tudful; Carys Parry, Theatr Y Spectacle, Y Rhondda

**Arwyr Cymunedol, a noddwyd gan Solar Windows**
Enillydd: Michelle Sheppard, Danymynydd, Pen-y-bont ar Ogwr
Yn Y Rowndiau Terfynol: Undeb Credyd Cwm Llynfi, Maesteg; Pwyllgor Preswylwyr Llys Hafren, Y Drenewydd, Powys; Joan Higgins, Nant y Môr, Sir Ddinbych;Darren a Carren Howe, Maes y Felin, Ceredigion

## ERIC FITTON



Mae Eric wedi cynnal y gerddi ar gyfer ei holl gymdogion oedrannus yng nghynllun gofal ychwanegol Nant Y Môr ym Mhrestatyn i'w mwynhau er iddo agor yn 2011. Ac yntau'n weithiwr coed brwd, mae wedi gwneud addurniadau gerddi ac mae'n helpu gyda gwaith DIY yn eu cartrefi.

## JEFF BUNCE



Mae Jeff, sy'n yrrwr coetsis wedi ymddeol, wedi gweithio'n galed i greu gardd eco a thŷ haf yn ei gartref ymddeol yn Western Court, Pen-y-bont ar Ogwr, fel y gall ei gymdogion oedrannus ddod ynghyd am nosweithiau ffilmiau, sesiynau bingo a dosbarthiadau cyfrifiaduron.

## JAN DERRETT



Ers blynyddoedd lawer, mae Jan o Oakmeadow Court, Caerdydd wedi cynnal grwpiau crefftau a gwneud cardiau yng nghynlluniau ymddeol WWH ac mewn clybiau pobl anabl yn Ne Cymru. Mae'i dosbarthiadau wedi tynnu cymdogion ynghyd i godi arian ac i ennill cyfeillion newydd.



# Cadw'n ddiogel wrth fancio ar-lein

Mae bancio a siopa ar-lein yn gyflym, yn gyfleus ac yn hawdd ei ddefnyddio ond tra bo hynny'n ffordd ddiogel o wneud trafodion a throsglwyddo arian, mae angen i chi fod ar eich gwyliadwriaeth am driciau a ddefnyddir gan dwyllwyr.

Bydd gwiriadau syml a gofalu am y data y byddwch yn ei rannu ar-lein yn lleihau'n sylweddol y risg o ddod yn ddioddefwr twyll ar-lein.

## Cyn ichi fewngofnodi

- Mewngofnodwch o rwydwaith cartref neu rwydwaith diogel: nid yw wi-fi cyhoeddus am ddim yn ddiogel, ac fe ellir dwyn eich manylion
- Gwiriwch ddiogelwch y safle bancio ar-lein: bydd proses amgryptio a ddefnyddir pan fyddwch yn bancio ar-lein yn helpu i gadw'ch manylion a'ch gweithgaredd yn ddiogel. Bydd dechrau cyfeiriad gwe eich banc yn newid o 'http' i 'https', ac fe fydd symbol clo clap yn ymddangos yn y porwr pan fyddwch yn glanio ar dudalen mewngofnodi bancio ar-lein, sy'n dynodi bod y cysylltiad yn ddiogel.

Y ffordd orau o sicrhau eich bod ar safle dilys eich banc yw drwy deipio'n uniongyrchol yng nghyfeiriad eu gwe.  Peidiwch byth â dilyn dolenni mewn e-bost, hyd yn oed os bydd yn ymddangos fel petai wedi dod o'ch banc.

- Defnyddiwch gyfrineiriau a rhifau PIN cadarn
- Gofalwch eich bod yn gweithredu meddalwedd gwrthfeirysau a wal dân sy'n ddiweddar cyn ichi fewngofnodi
- Os ydych yn defnyddio ap bancio symudol:
  Gofalwch mai hwn yw'r ap swyddogol - lawr lwythwch drwy stôr swyddogol yn unig, fel App Store Apple neu Google Play. Diweddarwch yn rheolaidd - gofalwch eich bod yn diweddaru'r ap pan gewch eich hysbysu i wneud hynny, gan gadw'ch manylion yn ddiogel.

## Cynghorion i gadw'n ddiogel a diogelu pwy ydych ar-lein

- Byddwch yn ymwybodol o ffenestri naid amheus fydd yn ymddangos yn ystod eich sesiwn fancio ar-lein
- Peidiwch byth â rhoi eich manylion mewngofnodi na'ch codau cyfrin i neb mewn e-bost nac ar y ffôn.
- Archwiliwch gyfriflenni banc yn rheolaidd a chysylltwch â'ch banc ar unwaith os byddwch yn sylwi ar unrhyw drafodion nad oeddech wedi'u hawdurdodi
- Cadwch y manylion cyswllt y bydd y banc yn eu cadw ar eich cyfer yn hollol gyfoes
- Os byddwch yn anfon arian i berson neu i sefydliad arall, ailwiriwch y cod didoli a rhif y cyfrif cyn gwneud y deliad.

## Gwefannau defnyddiol

Action Fraud A-Z of scams ar: www.actionfraud.police.uk
Bank safe online ar: www.banksafeonline.org.uk
Financial Fraud Action UK ar: www.financialfraudaction.org.uk
I gael y diweddaraf am sgamiau ariannol, gweler yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar: www.fca.org.uk
Bydd Which? yn darparu diweddariadau rheolaidd am sgamiau cyfredol a sut i'w hosgoi: www.which.co.uk/ consumer-rights/scams

# Deallus neu beidio - eich dewis chi ydi o

Mae mesuryddion deallus wedi'u cynllunio i'n helpu i ddeall yn well ein defnydd o ynni a'n biliau ynni, ac fe gynigir mesurydd deallus am ddim i bob cartref yn y wlad erbyn 2020.

Nid ydynt yn orfodol ond mae cyflenwyr ynni'n tybio y byddant yn arbed arian i aelwydydd o ran biliau ynni.

Mae'r mesuryddion nwy a thrydan DEALLUS fel arfer yn cynnwys sgrîn lliw i ddangos faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio o ddydd i ddydd mewn gwir dermau ac mewn punnoedd a cheiniogau. Fe allwch hefyd weld pa ddyfeisiadau yn eich cartref sy'n costio fwyaf ichi'u defnyddio.


Bydd y mesuryddion yn anfon darlleniadau'n awtomatig at eich darparwr ynni, sy'n golygu nad oes yn rhaid i neb ymweld â'ch cartref i gymryd darlleniadau mesurydd a dim mwy o filiau wedi'u brasamcanu. Maent hefyd yn dangos i gwsmeriaid sy'n talu ymlaen llaw faint o ynni y maent yn ei ddefnyddio a faint o gredyd sy'n weddill.

Cynigir mesurydd deallus i bawb erbyn 2020 ond eich penderfyniad chi yw p'un a ydych yn derbyn y cynnig.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
https://www.gov.uk/guidance/smart-meters-how-they-work
https://www.smartenergygb.org



# Talu'ch rhent drwy Ddebyd Uniongyrchol yw'r ffordd orau o hyd




Mae 87% o denantiaethau yn talu'u rhent yn brydlon neu'n talu'u hôl-ddyledion

Gwelsom lle mae preswylwyr wedi dewis defnyddio Debyd Uniongyrchol i dalu'u rhent neu'u taliadau am wasanaethau, y bydd dros 90% ohonynt yn talu'r swm cywir, ar ddyddiad sy'n gyfleus iddyn' nhw.

**£42,000**

yw'r swm y gwnaethom helpu preswylwyr i'w hawlio mewn Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn oddi wrth eu Hawdurdod Lleol y chwarter hwn.

Mae'r taliadau hyn ar gael i helpu pobl sydd efallai angen ychydig bach o gymorth ychwanegol gyda'u rhent oherwydd amgylchiadau neilltuol, neu gyda phrynu pethau i helpu i ymgartrefu mewn cartref newydd.




Rydych wedi dweud wrthym y gall cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i wneud cais am Gredyd Cynhwysol weithiau fod yn brofiad sy'n peri loes. Rydym wedi bod, a byddwn yn parhau i weithio'n agos â Chanolfannau Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau ledled y sir i sicrhau ein bod yn deall sut mae'r broses Credyd Cynhwysol yn gweithio, a'r hyn y gallwn ei wneud i helpu.

# Stori trosedd £24

## Y ffordd y gallwch chi helpu'r heddlu i ddal gwerthwyr

Mae troseddu difrifol ac wedi'i drefnu yn fygythiad i'n diogelwch gwladol ac mae'n costio mwy na £24 biliwn y flwyddyn i'r Deyrnas Unedig.

Cur pen sy'n cynyddu ymysg yr heddlu a chymunedau yw Llinellau Sirol. Dyma lle bydd grwpiau cyffuriau o ddinasoedd mawrion, fel Llundain, Manceinion, Lerpwl a Birmingham, yn anfon rhedwyr i nodi pobl a rhai sydd yn eu harddegau ac yn agored i niwed. O'u nodi, fe fyddant yn symud i mewn i'w cartrefi ac yn eu defnyddio fel lleoliad i werthu cyffuriau Dosbarth A.

Rôl yr heddlu yw diogelu pobl sy'n agored i niwed a chymunedau drwy amharu ar y llinell cyflenwi cyffuriau a dod â'r troseddwyr difrifol a chyfundrefnol hynny sydd wrth wraidd y smyglo cyffuriau gerbron llys barn.

Gall trigolion fod â rôl allweddol o ddarparu gwybodaeth i'r heddlu, eu helpu i gasglu gwybodaeth ac i adeiladu darlun o'r hyn sy'n digwydd yn y cymunedau lle rydym yn byw.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, fe allant nodi o ble y bydd y cyffuriau'n dod ac atal y troseddwyr hyn rhag dinistrio'n cymunedau.

### Arwyddion i gymdogion chwilio amdanynt

- Llawer o wahanol bobl neu geir yn mynd a dod o gyfeiriad bob awr o'r dydd a'r nos.
- Pobl, dynion ifanc fel arfer, yn cyrraedd ar feiciau am gyfnodau byr.
- Nifer eithafol o ymwelwyr â thŷ cymydog.
- Perthynas neu berthnasau'n aros yng nghartref cymydog, a'r cymydog hwnnw'n gorfod cnocio ar ei ddrws ffrynt ei hun i gael mynd i mewn.
- Cynnydd mewn prydau siopau parod sy'n cael eu danfon yno, sy'n anarferol ac sydd wedi digwydd dim ond ers i'r ymwelwyr gyrraedd.

### Arwyddion i rieni chwilio amdanynt

- Yn aml, fe fydd cyflenwyr cyffuriau'n defnyddio'r rheiny sydd yn eu harddegau cynnar i gludo'u cyffuriau.
- A ydych chi wedi sylwi ar eich plentyn chi...?
- Newid yn yr ymddygiad, megis colli ysgol, neu beidio â gwneud

## Ymddygiad ymosodol yw'r broblem fwyaf o ran

Sŵn a materion yn gysylltiedig â chyffuriau sydd wedi bod yn peri'r pryder mwyaf ichi y chwarter hwn. Pan roddir gwybod inni am sŵn, fe welwn yn aml y gall y broblem waelodol sy'n peri'r sŵn fod yn rhywbeth gwahanol iawn, ac yn aml fe fydd ar hyn angen nifer o ymweliadau a chyfarfodydd â phreswylwyr a'u cymdogion i lwyr ddeall yr hyn sy'n digwydd. Fe all hi ymddangos bod y dull hwn o weithredu yn hirfaith, ond fe ddywedasoch wrthym fod cael y cymorth iawn a'r sgwrs iawn yn allweddol i ymdrin â'r mathau hyn o broblemau.

Caiff problem cyflenwi cyffuriau a 'cwcwyo', lle y caiff preswylydd, yn aml yn agored i niwed, ei dargedu gan bobl o'r tu allan i'r ardal, ei gweld ledled Cymru. Gweithiwn mewn partneriaeth â'r Heddluoedd lleol ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae ein staff rheng flaen i gyd wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar i nodi'r mathau hyn o achosion, a sut i roi gwybod amdanynt wrth yr asiantaeth gywir.



# biliwn...

## cyffuriau canol dinasoedd

eu gwaith cartref.
- Ymhél â gwahanol griwiau o gyfeillion, a all fod yn hŷn na nhw.
- Cariad newydd y maent yn mynd ar goll gyda nhw yn aml.
- Dod adref gyda dillad neu esgidiau ymarfer newydd neu'r ffôn symudol diweddaraf.
- Bod yn gyfrinachgar ac yn derbyn nifer uchel o negeseuon testun neu alwadau ffôn.

### Beth a allwch ei wneud?

Os ydych yn amau bod yna werthu cyffuriau yn eich cymuned, neu os ydych yn pryderu bod eich plentyn yn gysylltiedig â gweithgareddau Llinellau Sirol:

- Os yw'n achos brys, ffoniwch 999.
- Os oes arnoch eisiau rhoi gwybod am weithgareddau cyffuriau a amheuir, ffoniwch 101 a'ch swyddog tai.
- Fe allwch ffonio Crime Stoppers ar 0800 555111 yn ddienw, os yw'n amgenach gennych beidio â rhoi'ch manylion.
- Dywedwch wrth yr heddlu lleol, yn cynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd yn aml yn cerdded o amgylch y gymdogaeth.
- Caiff pob galwad yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau a Llinellau Sirol eu trin yn hollol gyfrinachol ac fe gaiff yr wybodaeth a ddarparwch ei throsglwyddo i Swyddogion Cudd-wybodaeth yr Heddlu fydd wedyn yn gallu targedu'r cyflenwyr cyffuriau a'r gwerthwyr yn eich ardal.



## ymddygiad gwrthgymdeithasol

Fe ddywedasoch
Rwy'n hoff o ansawdd yr eiddo

Fe ddywedasoch
Hoffwn weld gwaith trwsio'n cael ei orffen cyn imi symud i mewn

**2** Problemau â chyffuriau yw'r ail broblem fwyaf i'n preswylwyr

**3** Aflonyddu ac ymddygiad ymosodol yw'r drydedd broblem fwyaf sy'n wynebu'n preswylwyr

# Sut i drwsio nam

A oes gennych foeler 'Vaillant Eco Tec' ynteu 'Vaillant Sustain' yn eich cartref? (Fe allwch wirio hyn drwy nodi'r gwneuthuriad a'r model ar du blaen y boeler.) Ar brydiau, fe all y pwysedd dŵr yn y math hwn o system wresogi ostwng i lefel lle na fydd y foeler yn gweithio. Os bydd hyn yn digwydd, fe fydd cod nam, F22, yn ymddangos ym sgrîn arddangos y boeler.




Mae yna fel arfer ddatrysiad syml ar gyfer hyn ac fe hoffem ddangos sut ichi.

## CAM 1




Fe allwch weld pwysedd y boeler ar ochr dde'r sgrîn arddangos. Ar y lefel gywir fe fydd rhwng y marciau isaf ac uchaf.

## CAM 2




Pan fo pwysedd dŵr yn gostwng yn is na'r marc isaf, fe wna'r sgrîn arddangos newid rhwng F22 a 0.4bar.

Pan fydd hyn yn digwydd, fe fydd arnoch angen cynyddu'r pwysedd dŵr yn eich system gwresogi canolog.

# Rydym yn gwneud mwy na chant o atgyweiriadau'r dydd ledled Cymru

Rydym wedi bod yn canolbwyntio'n gwasanaeth atgyweirio ar sicrhau bod ein timau cynnal a chadw'n dod i'ch cartref gyda'r deunyddiau cywir y mae arnynt eu hangen i wneud y gwaith.

Yn ddiweddar rydym wedi bod yn canolbwyntio ar loriau a ffenestri a drysau. Er enghraifft, os bydd ein staff Cambria yn trefnu apwyntiad i osod llawr newydd, fe wnânt gyrraedd eich cartref gyda digon o ddeunyddiau ar y fan i orffen y gwaith.

Drwy gael hyn yn iawn, mae'n golygu bod y gwaith at ei gilydd wedi'i orffen ar yr ymweliad cyntaf, ei fod wedi'i wneud yn dda a'i fod yn para yn iawn heb fawr ddim neu ddim anghyfleustra i chi.

Dyma'r pethau a ddywedasoch oedd yn bwysig ichi.


## Gwnaethom 9349 gartrefiwylwyr

Mae hynny'n atgyweiriad



# syml mewn boeler


## CAM 3



Unionwn y pwysedd drwy roi dŵr croyw i mewn yn y system wresogi.

Yn gyntaf, canfyddwch y ddau dap plastig bychain ym mhob pen o'r bibell lenwi hyblyg sy'n cysylltu dwy bibell anhyblyg yn agos at y boeler, fel arfer oddi tano.

## CAM 4



Agorwch y tap ar y dde yn wrthglocwedd, hanner tro. Wedyn, agorwch y tap ar y chwith yn wrthglocwedd yn araf iawn a gwyliwch y mesurydd pwysedd dŵr yn codi i tua hanner ffordd rhwng y marciau isaf ac uchaf. Unwaith y bydd wedi cyrraedd y lefel hon, caewch y tap hwn ac wedyn caewch y tap ar y dde.

## CAM 5





A dyna fo! Mae pwysedd dŵr wedi'i gywiro. Os nad oes dŵr yn llifo o'ch tapiau dŵr poeth ar ôl ichi ddilyn y camau hyn, gwiriwch eich bod wedi llwyr gau'r tapiau o dan y boeler.

Os ydych yn dal i brofi trafferthion, ffoniwch y llinell frys am atgyweiriadau ar 0800 052 2526.

**o atgyweiriadau i**


bob 15 munud.



Fe ddywedasoch chi:




Fe ddywedasoch chi:




**O bob 10 atgyweiriad a gwblhawyd, fe atgyweiriwyd 7 y tro cyntaf**





*Geiriad y llun: Yn canu'i hoff gân, 'The Last Waltz.'*

# Mae Trev yn atgyfodi
## ar y meic ffug

Mae'r canwr sydd wedi ymddeol, Trevor Rees, wedi bod yn mwynhau'i amser yn ôl mewn amlygrwydd yn ddiweddar.

Roedd Trevor, y gŵr gweddw wyth deg mlwydd oed sy'n byw yn un o'n cynlluniau i bobl wedi ymddeol yn Y Rhondda, yn enwog yn lleol ar Heol y Frenhines yng nghanol dinas Caerdydd yng nghanol yr 1990au.

Ac yntau'n ddyn bychan, addfwyn ei leferydd a chyda llais mawr, am dros ddegawd, fe fyddai'n morio canu caneuon Tom Jones a Frank Sinatra drwy feicroffon plastig plentyn, gan ennill y llysenw Toy Mic Trev.

Bob diwrnod, fe fyddai Trev, a'i ddiweddar wraig Maureen, yn mynd ar daith trên 25 milltir o'u cartref yn Y Rhondda i Gaerdydd, lle y byddai cerddwyr oedd yn mynd heibio yn taflu arian i mewn i het Trev wrth iddo ganu. Byddai Maureen yn gofalu am ei arian.

Yna, ryw ddiwrnod, fe roddodd y gorau iddi. Roedd y rhyngrwyd yn ferw o sibrydion a dyfalu ynglŷn â'r hyn oedd wedi digwydd iddo. Fodd bynnag, roedd Trev yn diddanu'i gymdogion gyda'i lais mawr ac yn canu bob dydd Sul yn ei Eglwys Bentecostal leol.

Gan nad oedd ganddo ffôn na ffordd o gyrchu'r rhyngrwyd, nid oedd Trev yn ymwybodol o'r dyfalu ar-lein hyd nes i newyddiadurwr o Wales Online ei olrhain i'w fflat a'i ddarbwyllo i ailafael yn y canu, ac fe wnaeth hynny ryw brynhawn ym mis Mawrth.

Enillodd ffilm Trev boblogrwydd gyda channoedd o filoedd o bobl yn gwylio o amgylch y byd wrth i Trev gymryd ei safle ar Heol y Frenhines unwaith eto.

"Roeddwn wrth fy modd yn canu yng Nghaerdydd, ond fe aeth o ychydig bach yn drech na mi, ac felly fe wnes ymddeol," fe eglura Trev.

"Arferai dydd Gwener a dydd Sadyrnau fod yn brysur. Yn enwedig ar ddiwrnodau gemau rygbi rhyngwladol. Rwy'n cofio un diwrnod gêm, roedd yn rhaid i'r heddlu fy symud er fy niogelwch, ac fe enillais ffortiwn y diwrnod hwnnw. Fe wnaeth un gŵr hyd yn oed roi papur £50 imi - ni allwn gredu'r peth."

Yn wreiddiol o Lundain, fe ddechreuodd Trev ganu yn blentyn, ac fe berfformiai mewn clybiau cabaret. Symudodd Trevor a'i wraig, Maureen, am y tro cyntaf i gynllun pobl wedi ymddeol Tai Wales & West yn Y Rhondda yn 2005. Dywedodd y rheolwyr cynlluniau, Jan Bridgeman a Chris Ball: "Mae Trev yn ŵr hyfryd. Mae'n seren go iawn."



*Ymunodd rheolwr cynllun Y Rhondda, Jan Bridgeman, â Trev ar gyfer te parti pen-blwydd arbennig yn 80 oed a drefnwyd gan berchennog caffi lleol.*

# Daw sied wych â diogelwch i glwb yr ardd

Mae garddwyr yng nghynllun pobl sydd wedi  ymddeol Cwrt Anghorfa wedi derbyn sied wych fydd, y maent yn gobeithio, yn cadw lladron allan.

Mae'r garddwyr yn gweithio'n galed drwy gydol y flwyddyn i sicrhau y bydd y gerddi cymunedol yn y cynllun yn y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr, yn dod â mwynhad i'r cymdogion i gyd.  Ond mae'r sied bren, lle byddant yn storio'u hoffer garddio, eu potiau a'u compost, wedi bod yn darged i ladron yn y misoedd diwethaf.

Felly, fe ddaeth y cwmni technoleg gwyrdd, Affresol Ltd, i'r adwy gan roi a gosod sied gwerth £2,500 i'r clwb yn rhan o'u had-daliad Budd i'r Gymuned i gymunedau Tai Wales & West.

Dywedodd aelodau'r Clwb, Phillip David ac Eddie Williams: "Byddwn yn talu £2.50 yr wythnos i mewn i'n clwb garddio i dalu am blanhigion a blodau, a byddwn yn codi arian drwy foreau coffi a rhoddion. Ond ni fyddem byth wedi gallu fforddio sied fel hon o gyllid ein clwb.  Mae'r sied newydd gymaint yn fwy cadarn a diogel na'n sied bren ac mae yna gymaint mwy o le ynddi."

Gweithiodd aelodau'r clwb garddio yn galed i drawsnewid yr ardd gymunedol yn y blynyddoedd diwethaf gyda chefnogaeth gan grantiau Gwneud Gwahaniaeth Tai Wales & West.

Yn ogystal â blodau, planhigion pot, ffrwythau a llysiau, mae'r ardd yn cynnwys creigfa, patio sy'n addas i gadeiriau olwyn a phont Siapaneaidd.



## Anfonwch eich straeon atom

Os ydych am weld eich digwyddiadau a'ch newyddion yn cael sylw, anfonwch eich straeon at y communications.team@wwha.co.uk neu ffoniwch 0800 052 2526.

## Huw o'r BBC yn dathlu 100fed pen-blwydd Lena



Pan gyrhaeddodd preswylydd Pen-y-bont ar Ogwr, Lena Charles, ei 100 oed, nid dim ond telegram gan y Frenhines a gafodd hi ond hefyd gais pen-blwydd yn cael ei ddarllen ar Radio Cymru.

Cynhaliwyd cyfres o bartïon, yn dechrau â chyngerdd dathlu yng Nghapel y Tabernacl ym Mhontycymer a Huw Edwards, darllenwr newyddion y BBC, yn ei gyflwyno.

Roedd pum cenhedlaeth o'i theulu ymysg y gwahoddedigion yn nathliadau ei phen-blwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Roedd Mrs Charles yn aelod o Wasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched am fwy na 40 mlynedd ac fe gafodd ei gwobrwyo â Medal yr Ymerodraeth Brydeinig am ei gwasanaethau i'r gymuned.


## Pen-blwydd Hapus yn 95 oed, Joan!



Bu teulu, cyfeillion a phreswylwyr yn mwynhau bwffe dathlu i anrhydeddu pen-blwydd Joan Wood yn 95 oed yn y Sydney Hall Court yng Nghei Connah, Sir y Fflint.

Bu Joan yn dathlu yng nghwmni ei mab, Colin Wood, a'i merch, Linda Danzi.  Dywedodd rheolwyr y cynllun, Alison Moody a Dianne Hughes: "Roedd yn achlysur hyfryd.  Mae Joan yn adnabyddus am fod â dant melys – a theisen yw un o'i hoff bethau – felly fe oleuodd ei hwyneb pan gyflwynwyd teisen iddi hi, yn gyflawn â chanhwyllau i'w chwythu i'w diffodd."

# Perchnogion cŵn cyfrifol



Cafodd perchnogion cŵn yn ein cynllun Barracksfield yn Wrecsam gyngor ar fod yn berchnogion cŵn cyfrifol mewn digwyddiad cymunedol a gynhaliwyd gan y Dogs Trust.

Dosbarthwyd gwiriadau iechyd a chyngor ar ddiet a hyfforddiant gan dîm arbenigol o'r elusen. Mae microsglodi cŵn yn awr yn ofyniad cyfreithiol ac fe roddwyd microsglodyn am ddim i gŵn mwy na hanner y 19 o berchnogion a ddaeth yno'r diwrnod hwnnw.

Mae microsglodion wedi'u cysylltu â chronfa ddata sy'n cynnwys manylion cyswllt y perchnogion, ac mae hynny'n caniatáu i gŵn gael eu dychwelyd i'w perchnogion yn gyflym ac yn rhwydd os byddant ar goll neu - fel sy'n digwydd yn gynyddol - wedi'u dwyn.

Gall holl breswylwyr Tai Wales & West sydd â chŵn fanteisio ar y 140+ o ddigwyddiadau cymunedol a gynhelir gan y Dog's Trust bob blwyddyn.

Dywedodd Malcolm Stagg, nyrs milfeddygol ymgyrchoedd y Dogs Trust: "Roedd ein digwyddiad yn Wrecsam yn ddiwrnod ardderchog, ac roeddem yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth ragorol a gafwyd gan Tai Wales & West.

"Yn ystod eu hymweliad, rhoddwyd cyfle i berchnogion ofyn cwestiynau ar bynciau mor amrywiol ag ysbaddu, ymddygiad, diet, a microsglodion. Rhoddodd hyn hefyd gyfle i ni drafod diweddaru eu manylion microsglodion ac atgoffa perchnogion o'r gofyniad a anghofir yn aml ond sy'n dal i fod yn gyfreithiol, i'w cŵn fod yn gwisgo tag adnabod pan fyddant allan ymysg y cyhoedd."

**Gwefannau defnyddiol**

dogstrust.org.uk – i gael cyngor ar fod yn berchnogion cŵn cyfrifol a sut i gael gosod microsglodyn am ddim i'ch ci.

petlog.org.uk – gall wirio bod manylion cyswllt eich ci yn ddiweddar ar y gronfa ddata genedlaethol.

## Anfonwch straeon eich anifeiliaid anwes atom

A oes gennych chi anifail anwes sy'n ffefryn ac fe hoffech ddweud wrthym amdano? Anfonwch eich straeon at **communications.team@wwha.co.uk** neu ffoniwch **0800 052 2526**. Peidiwch ag anghofio cynnwys eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn.

# Rhowch eich barn inni

A oes gennych chi ddiddordeb mewn Cymryd Rhan â ni neu mewn Gwneud Gwahaniaeth yn eich cymuned?

Os felly, mae yna ddigon o gefnogaeth ar gael – p'un ai rhoi eich barn ar ein gwasanaethau fyddai hynny, sefydlu gweithgareddau lleol, dysgu sgiliau cyfrifiadurol neu eich bod â syniadau ar gyfer prosiect mwy.

Gall Claire Hammond, ein Swyddog Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr, eich helpu i weithredu ar syniad. E-bostiwch claire.hammond@wwha.co.uk neu ffoniwch 07766832692 neu anfonwch neges destun.

Bydd ein preswylwyr ORA ('Only Residents Aloud') yn ein helpu i gael ciplun o farn preswylwyr ar amrywiaeth o bynciau neu brofi pa mor ddarllenadwy yw'r wybodaeth y byddwn yn bwriadu ei hanfon at breswylwyr. Gallwch wneud hynny o'ch cartref.

# Crynhoad o newyddion

## Abergwaun

Bu ieuenctid o Ganolfan Ieuenctid Point yn Sir Benfro yn cymryd rhan mewn helfa drysor wahanol dros wyliau'r Pasg. I wneud i'r bobl ifanc fod yn ymwybodol o ddementia, fe gynhaliwyd helfa drysor dementia-gyfeillgar o gwmpas y dref. Daeth yr helfa i ben yn ein cynllun ymddeol yn Llais Las, lle'r oedd rheolwr y cynllun, Helen Lucas, wedi paratoi lluniaeth ysgafn ar gyfer y preswylwyr a'r helwyr trysor ifainc.

## Aberteifi

Fe ymunodd preswylwyr ifainc o'n cynlluniau yn Aberteifi â helfeydd wyau, paentio wynebau a chwarae gemau mewn diwrnod o hwyl. Swyddog Datblygu Cymunedol Gorllewin Cymru, Rhiannon Ling, a drefnodd y digwyddiad yng Nghanolfan Hamdden Aberteifi yn

Bydd ein hymagwedd 'A Ydym wedi Gwrando?' tuag at reolaeth stad yn ymgysylltu â phreswylwyr yn yr ardaloedd lle'r ydych chi'n byw. Bydd hynny'n ein helpu i ddeall beth sy'n bwysig i chi am eich cartref a'ch cymuned ac i ni gytuno ar gamau gyda'n gilydd. Mae hon yn broses barhaus – sgwrs sy'n datblygu'n barhaus. Bydd rhai o'r camau'n cynnwys dyddiau agored, dyddiau o hwyl neu drafodaethau â phreswylwyr unigol yn eich cartrefi eich hunain.

Ar lefel uwch, mae ein RPSG (Grŵp Llywio Cyfranogiad Preswylwyr) yn cynnwys 18 o breswylwyr o bob cwr o Gymru ac mae'n gweithredu fel seinfwrdd i ni o ran materion cyfranogi. Byddant yn cyfarfod bob chwe wythnos yng Nghaerdydd neu yn Amwythig.

## ... neu gael cymorth ar gyfer eich cymuned

Gall ein Swyddogion Datblygu Cymunedol eich helpu hefyd i ddysgu sgiliau cyfrifiadurol / digidol neu gael mynediad at brosiectau cymunedol lleol. Byddant yn gweithio mewn cymunedau ledled Cymru, felly cysylltwch â'ch swyddog lleol os bydd gennych syniad neu os hoffech wella'ch sgiliau ar-lein.



Y rhain yw:

- Caerdydd, Caerffili a Bro Morgannwg - Herman Valentin herman.valentin@wwha.co.uk
- Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf - Laura Allcott laura.allcott@wwha.co.uk
- Merthyr/Powys - Alison Chaplin alison.chaplin@wwha.co.uk
- Gorllewin Cymru - Rhiannon Ling rhiannon.ling@wwha.co.uk
- Gogledd Cymru - Suzanne Harvey (cyflenwad secondiad yn cael ei drefnu ar hyn o bryd) suzanne.harvey@wwha.co.uk

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Claire Hammond neu â'ch Swyddog Datblygu Cymunedol lleol neu ffoniwch ni ar 0800 052 2526.

## preswylwyr

ystod gwyliau'r Pasg, ac fe ddaeth preswylwyr a'r gymuned ehangach yno.

Trefnwyd cludiant ar gyfer preswylwyr o Olwg y Castell a Llys Owen. Roedd gweithgareddau'n cynnwys paentio wynebau, castell neidio, gemau a gweithgareddau, celf a chrefft. Roedd staff Tai Wales & West wrth law hefyd i sgwrsio a rhoi gwybodaeth i breswylwyr.

### Caerdydd

Mae un o'n preswylwyr Americanaidd hynaf yn byw yn nhiroedd ein cynllun i bobl wedi ymddeol, Doyle Court yng Nghaerdydd.

Mae cochwydden y Sierra Sequoiadendron giganteum yn adnabyddus a chredir iddi ddyddio yn ôl i deyrnasiad y Frenhines Fictoria. Mae'n goeden a ddiogelir ac mae'n rhaid inni ofalu'n arbennig amdani hi.

Os oes gan unrhyw breswylwyr unrhyw straeon neu atgofion am y goeden, ysgrifennwch atom ni yn In Touch, Tai Wales & West, 77, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU neu anfon e-bost at communications.Team@wwha.co.uk

### Wrecsam

Rhoddodd canolfan gymunedol Tai Wales & West yn Hightown, Wrecsam eu cefnogaeth i lansiad canolfan newydd gwerth £4.5 miliwn ar gyfer diwylliant a chelfyddydau yn y dref.

Fe aethant i weithdy celf a chrefft yng Nghanolfan Adnoddau Cymunedol Hightown cyn agor Tŷ Pawb ac ychwanegu eu holion dwylo at faner enfawr oedd â lle amlwg yn y parêd ar ddydd Llun y Pasg i nodi agoriad y ganolfan.

Dywedodd Tracy Coppack, preswylydd Tai Wales & West a gwirfoddolwr yng Nghanolfan Adnoddau Cymunedol Hightown: 'Roeddwn i wrth fy modd yn gweld y plant yn cyfranogi o'r prosiect hwn, roeddynt mor falch o weld eu gwaith celf wedi'i arddangos yn y dref y maen nhw'n byw ynddi."





# Ffyrdd o wneud eich bywyd gartref yn haws

Golyga addasiadau arbennig y gellir ffitio unrhyw beth, o ganllawiau bach i gawodydd y gellir cerdded i mewn iddynt, i wella ansawdd eich bywyd.

Os bydd gorchwylion dyddiol, fel mynd i fyny grisiau neu agor a chau tapiau ymlaen, wedi dod yn anos, mae yna wasanaeth ar gael a allai wneud gwahaniaeth enfawr i ansawdd eich bywyd.

Bob blwyddyn, bydd Tai Wales & West yn gosod cyfleusterau newydd mewn cannoedd o gartrefi i wneud bywyd ychydig yn haws i breswylwyr sydd ag eiddo nad yw bellach yn bodloni'u hanghenion.

Gallwch gael at gyllid i wneud addasiadau i'ch cartref, ni waeth pa mor fawr neu fach yw'r gwaith.

**Ond beth yw'r meini prawf a sut mae gwneud cais am addasiad i'ch cartref?**

I breswylwyr sydd angen addasiad syml, fel canllaw fach neu ffitio tapiau lifer, gallwch ofyn am y rhain drwy ein tîm atgyweiriadau ar 0800 052 2526.

"Gall preswylwyr sydd wedi bod yn cael trafferth symud o gwmpas yn eu cartref ac sy'n teimlo y gallent elwa o rywbeth fel canllaw grisiau, canllaw fach neu risiau ychwanegol i mewn i'w heiddo, gysylltu â ni'n uniongyrchol," meddai Annerley Brown, Swyddog Cydymffurfio Tai Wales & West.

Fe ariannir addasiadau mwy, megis lifft grisiau neu gawodydd cerdded i mewn, drwy Grant Addasiadau Ffisegol. Cyn y gallwn ymgeisio am hyn, mae angen adroddiad gan therapydd galwedigaethol. Gallwch gysylltu â'ch awdurdod lleol i drefnu un o'r rhain neu, os byddai'n well gennych chi, fe allwn ni gysylltu â hwy ar eich rhan.

Fe wna'r therapydd galwedigaethol ymweld â'ch cartref, asesu eich anghenion ac anfon eu hargymhellion atom ni. Mae'n bosib y gall y Gwasanaethau Cymdeithasol gynorthwyo â darparu cymorth symudol, fel sedd baddon, yn hytrach na gwaith ar raddfa fawr.

Un preswylydd Tai Wales & West sydd wedi elwa o Grant Addasiadau Ffisegol eleni yw Doreen Goodman, sydd â phroblem clun, ac roedd hynny'n peri anhawster iddi fynd i mewn ac allan o'r gawod.

"Fe es i ymweld â fy meddyg, ac fe gefais fy atgyfeirio i therapydd galwedigaethol. Daeth i ymweld â'm cartref a chytunodd nad oedd yr ystafell ymolchi'n addas bellach," meddai Doreen, sy'n byw yn Y Drenewydd.

"Roeddwn i'n disgwyl cael dim ond cawod newydd ond yn awr mae gen i ystafell ymolchi cwbl newydd. Mae'n wirioneddol ddelfrydol ac mae ansawdd fy mywyd gymaint gwell."

Dywedodd Annerley: "Y peth pwysicaf yw bod preswylwyr yn siarad â ni. Os byddwn yn ymwybodol fod eich amgylchiadau wedi newid, fe allwn wneud rhywbeth i helpu a rhoi pethau yn eu lle i wella ansawdd eich bywyd.

"Gyda mân orchwylion, fe allai'r gweithdroad fod cyn lleied â dwy i dair wythnos ar gyfer cwblhau o'r adeg y gwneir y cais. Bydd addasiadau mwy, yn amlwg, yn cymryd ychydig mwy o amser."

## Sut i wneud cais am addasiadau

- Ffoniwch ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0800 052 2526 a rhowch wybod inni beth sy'n peri anhawster i chi ac fe drefnwn ninnau amser cyfleus i swyddog ymweld â'ch eiddo. Bydd gwaith ar gyfer mân addasiadau'n cael eu prosesu ar unwaith.
- Ar gyfer addasiadau mwy, cysylltwch ag adran leol eich gwasanaethau cymdeithasol i drefnu i therapydd galwedigaethol ymweld â'ch cartref. Fe fyddant yn asesu'ch anghenion ac yn cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar eich anghenion
- Unwaith y byddwn wedi derbyn asesiad wedi'i lofnodi gan y gwasanaethau cymdeithasol, fe drefnwn i aelod o'r staff gysylltu â chi i drafod proses yr addasu ac i roi syniad ichi o raddfeydd amser.

## Cynorthwyo preswylwyr gyda

# wi-fi rhad am ddim

Rydym yn gwneud mwy a mwy ar-lein, boed hynny'n golygu talu'n biliau, archebu'n nwyddau wythnosol o siopau neu alw'n cyfeillion a'n teulu.

Efallai eich bod eisoes wedi darllen am sut rydym yn ail-ddylunio'n gwefan gyda phreswylwyr mewn golwg, i'w gwneud hi'n haws cyrchu'r wybodaeth bwysig y mae arnoch ei hangen.

Daeth y rhyngrwyd yn rhan hanfodol o'n bywydau i lawer ohonom. Felly, rydym wedi buddsoddi mewn darparu wi-fi rhad ac am ddim yn ein cynlluniau ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol i ganiatáu i breswylwyr bori gwefannau a sefydlu e-byst.

'Llynedd, fe gysylltwyd 2,200 o ddyfeisiadau unigol â rhwydwaith Cymdeithas Tai Wales & West bob mis. Rhyngddynt, fe ddefnyddiodd y dyfeisiadau hynny 333,000Tb o ddata. Ar gyfartaledd, mae hynny'n 28Tb y mis, sy'n gyfwerth â gwylio dros 9,000 o ffilmiau Hollywood bob mis neu wrando ar 7 miliwn o ganeuon y mis.



Gwnawn barhau i gynorthwyo'n preswylwyr hŷn gyda chynhwysiant digidol fel eu bod yn gallu cyrchu'r gwasanaethau diweddaraf ar-lein.

## Boddhad a Chwynion

### BODDHAD

**9.4**

Dyna lefel y boddhad allan o 10 y gwnaethoch ei chofnodi i'n gwasanaeth gosod eiddo. Roeddech hefyd yn hoffi'n cartrefi newydd, a gofnododd gynnydd mewn lefel boddhad i fod yn 9.1 allan o 10.

Roedd ein gwasanaeth atgyweirio yn 9.1%, ychydig bach o ostyngiad o'i gymharu â'r tri mis blaenorol ond gwelliant o'i gymharu â'r un amser 'llynedd.

Y maes a wnaeth eich bodloni chi leiaf oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gofnododd 5.7 allan o 10.

### DATRYS CWYNION

**7.4**

o ddiwrnodau gwaith ar gyfartaledd i ddatrys cwynion.

### CWYNION

**10**


Y chwarter hwn, fe wnaethom 9,349 o atgyweiriadau, sef cynnydd o 14 y cant ers y chwarter diwethaf. Ac eto, fe arhosodd cwynion am ein gwasanaeth 'Fix My Home' yr un ar 6, gan ddod â chyfanswm ein cwynion i 10.

# Pa bryd yw'r amser gorau i ffonio?

Cododd cyfanswm y galwadau a dderbyniasom yn y tri mis diwethaf 5,000 i **38,000**. O'r rhain, roedd **17,000** yn alwadau i'n llinellau atgyweirio.

Ceisiwn ateb pob galwad mor gyflym â phosibl, a'r amseroedd cyfartalog i alwadau gael eu hateb yn ystod y cyfnod hwn oedd o fewn 47 eiliad.

Os ydych yn gallu aros, yr amser gorau i ffonio'n Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid yw ar ôl cinio.




o alwadau a dderbyniwyd ar gyfer atgyweirio wedi'u hateb

fe dderbyniasom

**17K**

o alwadau i'n llinellau atgyweirio






yn amser distawach i ffonio na chyn cinio

# Garddio Â GLENYS



*Mae Glenys Vandervolk yn arddwraig sydd wedi ennill gwobrau ac mae'n byw yn ein cynllun Llaneirwg yng Nghaerdydd. Mae'n un o'r sêr yng Ngardd Gymunedol Llaneirwg. Yn ei cholofn reolaidd, fe fydd yn rhannu'i hawgrymiadau a'i chynghorion i wneud i'ch gardd dyfu.*

Yr haf yw fy hoff gyfnod i o'r flwyddyn, pan fydd y basgedi crog yn blodeuo a deunydd salad yr haf yn barod i'w pigo a'u bwyta.

Dyma'r adeg i ddechrau plannu'ch deunydd salad a ffa dringo a ffa Ffrengig. Gallwch dyfu deunydd salad yn unrhyw le. Os dim ond bag tyfu sydd gennych chi, taenwch yr hadau ar y compost ac fe dyfant.

Rhowch gynnig ar bacedi o ddail letys cymysg a phlannu shibwns a radis rhyngddynt. Wrth ichi bigo'r dail ar gyfer eich salad, plannwch fwy i gadw cnwd i fynd drwy gydol yr haf.

Mehefin yw'r amser i ddechrau tyfu ffa dringo a ffa Ffrengig. Eto, does dim angen gardd fawr - bydd bag tyfu neu bot blodau mawr yn gweithio'n llawn cystal. Ond mae angen ichi ffurfio wigwam â ffyn neu gansenni bambŵ er mwyn iddynt allu tyfu. Cofiwch ddal i'w dyfrio'n dda.

Yr haf hefyd yw'r amser y bydd y plâu'n dod allan i chwarae, gwlithod, malwod a'r clêr gwyrdd. Nid oes dim sy'n waeth na gwlithod yn mwynhau'ch cnydau o'ch blaen chi!!

Dyma rai cynghorion:

1. Nid yw Gwlithod yn hoff o gaffein, felly llenwch bowlen fas â chola neu goffi a'i rhoi'n nesaf at eich planhigion. Bydd y gwlithod yn cael parti dros nos ac fe ryfeddwch at yr hyn y byddwch chi'n ei ddarganfod yn y bore.
2. Opsiwn arall sy'n llai dymunol ond yr un mor effeithiol yw rhoi dail letys sy'n pydru, bwyd sych cŵn neu gathod neu fran mewn bag du neu leinin bin a'i adael wrth ochr eich planhigion. Pan ddaw'r gwlithod allan yn y nos, fe gânt eu denu at y bag – mae'n fwyty â sêr Michelin iddyn nhw. Yr unig broblem yw y bydd yn rhaid ichi gael gwared â'r bag sy'n llawn gwlithod y bore trannoeth!!
3. Mae gwlithod yn casáu finegr gwyn. Gwnewch gymysgedd o un rhan o finegr, tair rhan o ddŵr a llond llwy de o hylif golchi llestri. Cymysgwch o a'i chwistrellu unwaith, dim ond ar ddail eich planhigion unwaith yr wythnos. Bydd hyn yn cadw'r gwlithod, y morgrug a'r clêr gwyrdd draw.
4. Nid yw gwlithod, fel sugnwyr gwaed, yn hoff o arlleg. Felly, gwnewch hydoddiant o ddŵr a phowdwr garlleg mewn can dyfrio a defnyddiwch hwn i ddyfrio'r pridd o gwmpas eich planhigion.

Mwynhewch y tyfu

*Glenys*

## Lle y bydd y blodau gwyllt yn tyfu

Yn o fuan, bydd garddwyr ein cynlluniau yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr yn tyfu blodau fyddai'n deilwng o Erddi Kew.

Cafodd Cymdeithas Tai Wales & West yr hadau blodau gwyllt yn rhad ac am ddim yn rhan o'r prosiect cenedlaethol 'Grow Wild', mewn partneriaeth â Gardd Kew ac fe'u rhannwyd ymysg y grwpiau canlynol:

• **Pen-y-bont ar Ogwr** - Danymynydd, Llys Faen, Western Court, Cwrt Anghorfa, The Beeches
• **Caerdydd** – Gardd Gymunedol Llaneirwg ac Oakmeadow Court

Fe anfonwyd digon o hadau atynt ac maent yn fodlon iawn rhannu â grwpiau eraill.

Os hoffech chi blannu blodau gwyllt i annog gwenyn a phryfed peillio eraill i'ch gerddi, neu os hoffech beth ysbrydoliaeth ar gyfer gweithgareddau neu os hoffech glywed am/gyfarfod â grwpiau eraill, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda. Gallwch gysylltu â Swyddog ein Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr, Claire Hammond, neu â'ch Swyddog Datblygu Cymunedol lleol ar 0800 052 2526. Neu anfonwch e-bost at claire.hammond@wwha.co.uk

# Pwdin yr haf

Amser paratoi: 20 munud    Amser coginio: 10 munud



## Cynhwysion:

300g mefus
250g mwyar duon
100g cyrens coch
500g mafon
NEU
1¼kg aeron cymysg a chyrens
175g siwgr mân euraidd
7 tafell o fara gwyn sy'n ddiwrnod oed, o dorth sgwâr â thafellau canolig
Powlen bwdin 1.25 litr

## Dull:

1. Golchwch y ffrwythau a'u sychu'n ofalus ar bapur cegin, gan gadw'r mefus ar wahân. Rhowch siwgr a 3 llwy fwrdd o ddŵr mewn sosban fawr. Gwresogwch yn araf nes bod y siwgr yn toddi – a'i droi ychydig o weithiau. Berwch y dŵr am 1 munud, yna ychwanegwch y ffrwythau i gyd, ac eithrio'r mefus. Coginiwch am 3 munud dros wres isel gan droi nes bod y ffrwythau wedi meddalu, yna hidlwch.
2. Leiniwch y bowlen â haenen lynu (bydd hyn yn eich helpu i droi'r pwdin allan) gan adael oddeutu 15cm yn hongian dros yr ymyl.

3. Trimiwch y crystiau oddi ar y bara a thrimio un dafell i ffitio gwaelod y bowlen. Torrwch 4 tafell yn eu hanner i leinio ochr y bowlen gan eu gorgyffwrdd ar yr ymyl syth gyda'r ochr gron i lawr, seliwch drwy wasgu'r ymylon at ei gilydd. Llenwch unrhyw fylchau â darnau bychain o fara, fel na all unrhyw sudd dryddiferu drwodd.

4. Yn awr, rhowch y ffrwythau sydd wedi'u meddalu a'r sudd i mewn â llwy, gan ychwanegu'r mefus yma ac acw wrth fynd yn eich blaen.

5. Gorchuddiwch y pwdin â gweddill y bara a thrimiwch unrhyw drosgrog â siswrn. Cadwch unrhyw sudd fydd ar ôl i'w ddefnyddio yn nes ymlaen. Dewch â'r haenen lynu i fyny a'i selio'n llac. Gosodwch blât bychan neu soser ar y top a'i bwyso i lawr â chaniau neu eitem drom arall a'i roi yn yr oergell i oeri am chwe awr neu dros nos.

6. I'w gyflwyno, agorwch yr haenen lynu allan ac yna rhoi plât gweini â'i ben i lawr ar y top a'i fflipio drosodd. Cyflwynwch â sudd sydd dros ben, unrhyw aeron ychwanegol a hufen.

# CREFFT YR HAF – 'BASGEDI' CROG



**Bydd arnoch angen:**

- Colandr
- Pelen o linyn gardd
- Glud
- Mwsog Llen
- Pridd Potio
- Planhigion Tymhorol

**Dull:**

1. Lapiwch hyd o'r llinyn yn dynn o gwmpas handlen y colandr, gan ofalu na fyddwch yn gadael unrhyw fylchau. Unwaith y bydd wedi'i orchuddio, clymwch o a'i ddiogelu â dab o lud.
2. Torrwch ddau hyd o linyn, oddeutu 1 metr yn eu hyd, a'u clymu i handlenni'r colandr ym mhob pen.
3. Ailadroddwch y broses â'r handlen arall.
4. Leiniwch y colandr â mwsog llen a'i lenwi â phridd potio.
5. Plannwch o â phlanhigion tymhorol (fe ddefnyddiwyd rhedynau a'r fioled ofergaru yn y llun). Clymwch bedwar hyd o linyn â'i gilydd a'i hongian.

# Tudalennau posau

Enillwch gwerth **£30 o dalebau siopa** gyda'n posau Chwilair a Chroesair.


GWOBR

## CHWILAIR

*Mae'r rhifyn hwn o Chwilair i gyd yn ymwneud â'r Haf. Gellir canfod yr holl eiriau tuag yn ôl, ymlaen, yn llorweddol, yn ferigol neu'n groeslinol.*

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | N | P | S | B | T | S | O | P | N | Y | D | R | E | C |
| Y | Y | O | Â | T | E | A | O | F | G | P | O | S | B | P |
| W | D | A | D | L | R | I | B | E | I | C | G | Y | B | U |
| T | O | F | H | Y | F | O | M | L | G | B | S | Y | N | H |
| S | G | F | S | I | G | A | I | W | G | P | Y | U | E | J |
| B | S | T | E | I | U | I | I | S | U | H | C | T | F | D |
| U | Y | D | B | R | W | S | R | B | J | E | G | E | T | C |
| N | P | W | A | W | G | T | B | B | I | U | W | D | P | R |
| F | E | D | C | N | C | L | C | A | K | L | R | L | W | R |
| C | A | L | O | C | O | E | N | E | I | O | E | T | B | Y |
| G | T | F | E | D | H | R | D | B | S | G | S | O | F | A |
| C | I | R | A | P | W | N | E | L | G | I | S | N | C | N |
| O | R | U | C | I | G | D | P | A | R | A | S | O | L | F |
| O | B | U | S | O | A | L | E | W | Y | T | M | E | F | M |
| H | W | Y | L | I | O | C | R | E | B | M | F | P | C | F |

*ADAR*
*BEIC*
*BLODAU*
*BRIGYDON*
*BWCED*
*CERDYN POST*
*CYSGOD*
*DEIFIO*
*GEMAU*
*GWISG NOFIO*
*GWRES*
*HET*
*HEULOG*
*HWYLIO*
*PARASOL*
*PELEN*
*PYSGODYN*
*PÂL*
*SIGLEN*
*SIORTS*
*SIWRNAI*
*SIWTCES*
*TON*
*TWYM*
*TYWEL*




**AR DRAWS**

3. Pryfyn gyda chefn coch a smotiau du (13)
7. Person sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth (7)
8. Tymheredd rhwng twym ac oer (6)
11. Gwisgwyd i amddiffyn eich llygaid rhag yr haul (11)
14. Tywydd garw (5)
15. Esgidiau agored a wisgwyd yn yr haf (8)

**I LAWR**

1. Rhannau lliwgar o'r blodyn (7)
2. Chi'n ei dorri (5)
4. Yn fwy dros amser (4)
5. Gwisgwyd ar eich pen (3)
6. Gweithgaredd yn yr awyr iach sy'n cynnwys pabell (9)
9. Adeiladwyd gan dderyn i ddal wyau (4)
10. Tyfu ar goed a phlanhigion (4)
12. Maent yn eistedd ar badiau lily (7)
13. Troi mewn i iâr fach yr haf (8)

# POS SWDOCW

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | | | 1 | 8 | | 6 | | 3 |
| | 3 | | | | 4 | | | |
| 6 | | 4 | | | 7 | | 5 | |
| 4 | | 8 | 6 | | | 7 | | 1 |
| | 2 | | | 1 | | | 9 | |
| 1 | | 5 | | | 3 | 2 | | 4 |
| | 8 | | 9 | | | 3 | | 7 |
| | | | 8 | | | | 6 | |
| 9 | | 6 | | 2 | 5 | | | 8 |

# ENILLWYR POS Y GWANWYN

Llongyfarchiadau i enillwyr ein cystadlaethau posau'r Gwanwyn. Yr enillwyr oedd Mr P D Bell o Dôl Fach, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, a enillodd y Chwilair, a Mrs S Wilson o Edwards Field, Y Drenewydd, a enillodd y Croesair. Maent ill dau'n derbyn taleb anrhegion gwerth £30.

## ENNILL

I fod â chyfle i ennill taleb siopa gwerth £30 am ein pos chwilair neu groesair, anfonwch eich cynnig ynghyd â'ch enw, cyfeiriad a manylion cysylltu at Alison Stokes, Tai Wales & West, Archway House, 77, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU.

Rhoddir yr holl gynigion cywir yn y gystadleuaeth tynnu enwau ac fe ddewisir un enillydd ffodus ar gyfer pob pos, ac fe fydd yn derbyn taleb siopa gwerth £30. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion yw'r **30ain o Orffennaf, 2018**.

# Rhannwch gyfeillgarwch a diddordebau ar facebook

Ein grwpiau Facebook, sef Get Crafty, Get Growing a Get Together, yw'r lleoedd i rannu lluniau, storïau a gwybodaeth am y gweithgareddau cymunedol y mae ein preswylwyr yn cymryd rhan ynddynt.

Boed hynny'n gofyn cwestiynau ynglŷn â choginio neu'n rhannu planhigion a hadau ar gyfer gerddi cymunedol, mae gennym fwy nag 80 o breswylwyr yn sgwrsio'n rheolaidd ac yn rhannu'u cynghorion ar-lein.

Mae aelodau'n defnyddio'r grŵp i drafod syniadau ar gyfer crefftau, i ddangos lluniau i gyfeillion o'r pethau y maent wedi'u gwneud neu yr hoffent eu gwneud neu i rannu cynghorion a ryseitiau.

Mae'r grwpiau'n gaeedig, ond os hoffech ymuno, anfonwch 'friend request' at Claire Hammond neu os ydych eisoes yn aelod o'r grwpiau hyn, fe allwch ychwanegu aelodau newydd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn rhywbeth a grybwyllir yma, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Claire Hammond neu â'ch Swyddog Datblygu Cymunedol lleol drwy'r cyfeiriadau e-bost a roddir neu ffoniwch ni ar 0800 052 2526.

# Parti Brenhinol go iawn



Cynhaliodd Llys Jasmine ddathliad i nodi priodas y Tywysog Harry a Meghan Markle. Gwnaeth grŵp o 35 breswylwyr wylio'r Briodas Frenhinol ar y 19eg o Fai dros ginio bwffe, gyda balwnau, baneri a blodau o'u hamgylch.

Dywedodd Kara Foulkes, Rheolwr Gofal Ychwanegol yn Llys Jasmine: "Fe wnaeth preswylwyr wisgo lan a gwisgo hetiau a sgarffiau ysblennydd. Cafodd pawb a fynychodd amser bendigedig, ac fe wnaeth rhai hyd yn oed rhannu poteli gwin i gynnig llwncdestun i'r cwpwl dedwydd."

Os cynhaliodd eich cynllun chi barti Priodas Frenhinol, anfonwch eich lluniau i mewn i In Touch.

# Diwrnod ym mywyd ...
# Swyddog Cydymffurfio

Cadw preswylwyr yn ddiogel yn eu cartrefi yw prif ffocws rôl y Swyddog Cydymffurfio, Perry Dobbins.

Mae'i dîm yn sicrhau y caiff tua 9,000 o wiriadau diogelwch eu cynnal ar offer gwresogi bob blwyddyn.

Rhai o'r meysydd y mae Perry a'i dîm yn gofalu amdanynt yn ein cartrefi yw gwiriadau diogelwch blynyddol ar systemau gwresogi nwy, olew a thanwydd solet a gwasanaethu offer, atgyweirio systemau gwresogi a gosod boeleri, monitro a chael gwared ag asbestos, a hylendid dŵr.

Maent yn dîm ymroddedig a medrus sy'n cyfathrebu â'n preswylwyr i sicrhau bod gwiriadau diogelwch cywir yn cael eu cwblhau'n gyfnodol a bod unrhyw ddiffygion a ganfyddir yn cael eu hunioni'n brydlon.

"Mae cydymffurfio'n hollbwysig i'n preswylwyr ac i ni fel sefydliad," medd Perry.

"Fel landlord cymdeithasol, rydym yn cadw at y rheoliadau a bennir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chyrff eraill, ac fe awn y tu hwnt i'r hyn a ddywed rheoliadau os credwn fod hynny er lles ein preswylwyr a'u cartrefi. Fel enghraifft o wneud mwy na'n gofynion, rydym ar fin dechrau ar raglen o newid synwyryddion mwg mewn tai i bobl wedi ymddeol, ac fe fyddwn hefyd yn gosod synwyryddion gwres fel ychwanegiad.

"Un o'r heriau sydd gennym yw sicrhau mynediad at wiriad a gwasanaeth diogelwch nwy yng nghartrefi'n preswylwyr.  Rwyf yn deall efallai nad yw aros gartref ar gyfer gwiriad diogelwch yn ymddangos fel blaenoriaeth uchel, ond yn gyfreithiol mae'n rhaid inni gwblhau'r gwiriad bob blwyddyn er diogelwch y bobl sy'n byw yn y cartref a'u hymwelwyr.  Mae hyn er lles pawb.

"Maes pwysig arall inni yw asbestos.  Felly, os ydym yn gwneud gwaith ar gartrefi lle mae yna asbestos yn bresennol, mae'n rhaid inni sicrhau ei fod yn cael ei drin yn gywir ac na roddir neb mewn perygl."

Ymunodd Perry â'r tîm cydymffurfio yn WWH 10 mlynedd yn ôl, a chyn hynny, bu'n gweithio am saith mlynedd yn ein Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid.

Fe ddywed: "Rwyf wedi byw mewn tŷ cymdeithasol fy hun, ac felly rwyf yn deall pwysigrwydd darparu gwasanaeth da i'n preswylwyr.  Mae llawer o'r pethau a wnawn y tu ôl i'r llenni, i sicrhau bod popeth yn gweithio'n dda, ac mae'r sefydliad yn dilyn ein holl ofynion cyfreithiol."



# Beth sy'n digwydd

## GOGLEDD CYMRU

### 3 – 8 Gorffennaf: Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
Y Pafiliwn Cydwladol Brenhinol, Abbey Rd, Llangollen
Chwe diwrnod o gerddoriaeth, caneuon a dawnsio, yn cynnwys cystadleuaeth Côr y Byd a pherfformiadau gan Alfie Boe, Van Morrison a'r Kaiser Chiefs. Mae prisiau tocynnau'n dechrau o £12 oedolion/£10 consesiynau/£5 plant http://internationaleisteddfod.co.uk/ 01978 862003

### 20 July: Underneath the Arches
Y Bont, Pontcysyllte,
7yh-11yh
Cae chwarae'r Bont o dan Bont Thomas Telford Treftadaeth y Byd UNESCO a restrir. Mae traphont ddŵr a chamlas Pontcysyllte 11 milltir rhestredig wedi'i thrawsnewid i sioe oleuni a cherddoriaeth am un noswaith yn unig. Parcio am ddim, a bwyd a diod ar gael. Ffôn: 01978 292015

### 16 Awst: Sioe Sir Dinbych a'r Fflint
The Green, Dinbych LL16 4UB
Amrywiaeth o atyniadau ac adloniannau ar gyfer y teulu, yn cynnwys gŵyl fwyd, hen beiriannau a cheir clasurol a da byw
Denbighandflintshow.com
Ffôn: 01352 712131

## CANOLBARTH CYMRU

### 22 Mehefin – 1 Gorffennaf: Gŵyl Gregynog
Neuadd Gregynog, Tregynon, Y Drenewydd, Powys SY16 3PW
Bydd y cerddor eiconig o Gymru, Morfydd Owen, yn cael ei chofio yn 2018, sy'n nodi canmlwyddiant ei marwolaeth yn 27 oed yn 1918. Mae'r ŵyl yn cynnwys cerddoriaeth glasurol o ganoloesol i'r 21ain ganrif, yn cynnwys llawer o dramor. Mae prisiau tocynnau'n amrywio gwylgregynogfestival.org

### 23 Mehefin: Prynhawn o ddawnsio Albanaidd
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, Libanus, Powys
Prynhawn o ddawnsio i'r acordion, a chwaraeir gan George Meikle. Digwyddiad am ddim a gynhelir gan Gangen De Cymru o Gymdeithas Ddawns Frenhinol yr Alban, sy'n addas i blant ac oedolion. Codir tâl am barcio ceir. breconbeacons.org/events/5012. Ffôn: 01874 624437




*Sioe Sir Aberteifi*



*Caws Mawr Caerffili*



*Underneath the Arches*

## DE CYMRU

### 30 Mehefin - 1 Gorffennaf: Sioe Awyr Cymru
Bae Abertawe. Gwyliwch arddangosfeydd erobatig/awyr syfrdanol, yn cynnwys Tîm Arddangos Typhoon yr RAF, yn hedfan un o awyrennau ymladd mwyaf datblygedig y byd. Digwyddiad am ddim.

### 13 - 15 Gorffennaf: Tir Sioe Pen-y-bont ar Ogwr
Yn ôl am y 72ain flwyddyn, mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn cynnwys sioeau cŵn a geifr a chymysgedd o ddigwyddiadau garddwriaethol, yn ogystal â bwyd a diod. Parcio am ddim a mynediad am ddim. Yn ddyddiol o 5yp. Bridgendcountyshow.org.uk

### 21 Gorffennaf: Carnifal Porthcawl
Y thema eleni yw 'Blwyddyn ger y Môr'. Gwyliwch atyniadau ac arddangosfeydd a chodwch arian i elusennau/achosion da. Porthcawlcarnival.weebly.com

### 22 Gorffennaf: Gŵyl Fwyd Merthyr
Canol tref Merthyr. Trefniant o stondinau bwyd, arddangosfeydd coginio byw, gweithgareddau plant, adloniant byw a mwy. Parcio am £1 drwy'r dydd yng nghanol tref Merthyr. Digwyddiad am ddim. 10yb-5yp http://www.welovemerthyr.co.uk/public/event/merthyr-food-festival

### 27 - 29 Gorffennaf: Y Caws Mawr
Canol tref Caerffili. Sbloets am ddim o adloniant stryd, gwersyllfannau hanes byw, cerddoriaeth, dawnsio, hebogyddiaeth, ffair bleser, tân gwyllt a llawer mwy. your.caerphilly.gov.uk/bigcheese

### 24 –26 Awst: Pride Cymru
Coopers Field, Caerdydd. Y dathliad blynyddol mwyaf o gydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru. Mae'r adloniant yn cynnwys cerddoriaeth fyw, ffair bleser, marchnad ddiwylliannol, celfyddydau a chrefftau, a bwyd a diod.Tocynnau £5 y dydd. Pridecymru.co.uk

## GORLLEWIN CYMRU

### 6 - 7 Gorffennaf: Gŵyl Nôl a Mlan Llangrannog
Mae'r ŵyl rad ac am ddim yn dathlu'i 10fed phen-blwydd gyda rhywbeth i'r teulu i gyd. www.facebook.com/gwylnolamlan/?fref=ts

### 9 Gorffennaf: Sioe Tivyside, Castellnewydd Emlyn
Gwartheg, ceffylau, defaid a moch. Gwefan: http://tivysideshow.wordpress.com

### 8 Gorffennaf: Gŵyl Bwyd Môr Bae Aberteifi Harbwr Aberaeron
Y wledd flynyddol o bysgod. Gwyliwch ben-cogyddion yn paratoi pysgod lleol a samplwch seigiau y gallant wedyn roi cynnig arnynt gartref. www.aberaeronfishfest.com

### 4 Awst: Sioe Sir Aberteifi
Diwrnod allan gwych i deuluoedd gyda Cynnyrch Ffermydd Prydain, amrywiol arddangosfeydd, Sioe Gŵn,Neuadd Fwyd, Ffair Bleser, pabell gwrw a llawer mwy. www.cardigancountyshow.org.uk

### 12 Awst: Gŵyl Fwyd 'Môr i'r Tir' Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, 10yb-4yp.
Mynediad am ddim. Stondinau bwyd a gweithgareddau, waliau dringo a gwibgerti i blant, arddangosfeydd coginio a'r cyfle i brynu nwyddau lleol.

### 14 - 16 Awst: Sioe Sir Benfro Tir Sioe Hwlffordd
Rhaglen amrywiol, o gamelod i wartheg, o daflu ysgubau i sgrialu. Mae'n cynnwys godro robotig, arddangosfeydd gan farchfeddygon, arddangosfeydd ceir clasurol, a digonedd o anifeiliaid. www.pembsshow.org

### 27 Awst: Carnifal Aberaeron Harbwr Aberaeron.
Carnifal Blynyddol dydd Llun Gŵyl y Banc.Mae'r gorymdeithio'n cychwyn ar y Cei am 1:45yp.

# Mae'r Gweinidog yn cyfarfod â phreswylwyr yn 3000fed cartref Gogledd Cymru

*Galwodd Rebecca Evans, AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio, heibio i weld sut mae preswylwyr yn ymgartrefu yn natblygiad newydd Tir Glas gwerth £8.2 miliwn ym Maes Glas, Sir y Fflint, lle y cafodd ein 3000fed cartref, sy'n garreg filltir, yng Ngogledd Cymru ei adeiladu.*

*Symudodd y preswylwyr cyntaf i mewn i'r stad ym mis Ionawr, 2017.*

*Dywedodd Rebecca Evans, AC: "Roedd hi'n fendigedig cyfarfod â phawb sy'n gysylltiedig â Tir Glas, yn cynnwys y preswylwyr a ddywedodd wrthyf mor falch y maent o'u cartrefi."*



*O'r chwith i'r dde: Anne Hinchey, Prif Weithredwr WWH; Rebecca Evans, AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio; preswylydd - Pauline Haseldin; a Sarah Delucia Crook, Rheolwr Datblygu Busnes, Anwyl.*